




Côr Adran Taf fu'n cymryd rhan yn
Noson Lawen y Nadolig

Melinau Gwynt uwch law Cilfynydd

Mae Cwmni Ynni Bute wedi datblygu cynlluniau ar gyfer Parc Ynni Twyn Hywel, sydd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae rhan fwyaf y safle mewn Ardal wedi ei Rhag-asesu ar gyfer Ynni'r Gwynt gan Lywodraeth Cymru. Bydd 14 tyrbín gwynt ar y safle gyda 11 rhwng Sengehennydd a Llanbaradach a 3 ar Twyn y Gwynt ger y Mastiau Radio uwch ben Cilfynydd. Bu ymgynghoriad ar y cynlluniau dros y Nadolig ac mae'n bosib datgan barn ymhellach wrth i Lywodraeth Cymru ystyried y cynigion.

Mae gan Barc Ynni Twyn Hywel y potensial i gynhyrchu hyd at 92.4MW o ynni gwynt, digon i bweru maint cyfatebol â 81,000 o gartrefi bob blwyddyn. Bydd hyn yn helpu i ddadleoli tua 5.7 miliwn o dunelli o CO2 bob blwyddyn. Yn wreiddiol bwriadwyd codi ugain o dyrbinau yn y cynllun a gyflwynwyd gyntaf yn haf 2021 ond ar ôl ymgynghori â chymunedau, arbenigwyr amgylcheddol a thechnegol, awdurdodau lleol ac ymgynghoreion statudol penderfynwyd ar gynllun o bedwar ar ddeg o dyrbinau. Ceir rhagor o wybodaeth yma - <https://twynhywelenergypark.wales/?lang=cy>



Llun gosod o'r tyrbinau gwynt

Swyddogion Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf



Helen Prosser

Andrew White

Iolo Roberts

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld ag ardal Rhondda Cynon Taf am y tro cyntaf ers bron i 70 mlynedd yn 2024, mae trefnwyr y Brifwyl wedi cyhoeddi enwau'r swyddogion a fydd yn llywio'r gwaith dros y flwyddyn a hanner nesaf.

Helen Prosser o Donyrefail yw Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Yn wreiddiol o ardal Rhondda Cynon Taf, mae Helen yn gweithio i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn dilyn cyfnod pan fu'n arwain y sector dysgu Cymraeg yn yr ardal.

Andrew White o Lanharan sydd wedi'i ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Dechreuodd Andrew ddysgu'r Gymraeg ar ôl ymweld ag Eisteddfod Casnewydd pan oedd yn 17 oed, ac mae wedi sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yn y teulu erbyn hyn.

O Efail Isaf y daw Cadeirydd y Gronfa Leol, Iolo Roberts, sy'n gweithio fel newyddiadurwr gyda'r BBC yng Nghaerdydd. Mae'r Eisteddfod wedi bod yn rhan fawr iawn o'i fywyd erioed, gan ei fod wedi mynychu a chystadlu'n flynyddol ers pan oedd yn blentyn.

Neges y Cadeirydd -

Ydy, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod!

Faint ohonoch chi, fel fi, oedd yn meddwl na fydden ni byth yn cael cyfle i groesawu Eisteddfod Genedlaethol i'n sir ni? Ond y newyddion gwych yw bod yr Eisteddfod yn dod aton ni ym mis Awst 2024 a fy mraint i fydd cael bod yn Gadeirydd ar ein Pwyllgor Gwaith lleol.

Dw i'n gweld canlyniadau'r Cyfrifiad eleni fel galwad i weithredu. Mae yna lawer iawn, iawn o bethau lle mae angen cymorth a deddfwriaeth i wyrdroi'r shift ieithyddol, ond mae yna bethau y gallwn ni i gyd eu gwneud hefyd. Ac mae dyfodiad yr Eisteddfod i'r sir yn rhoi cyfle i ni godi proffil y Gymraeg ac ychwanegu at y bwrlwm sydd gyda ni yma eisoes. Diolch byth, cynnydd a welwyd yng nghanran y siaradwyr yn yr ardal hon, er mai cynnydd bach o 1% yn unig oedd e.

Dw i'n gobeithio y bydd yr Eisteddfod a pharatoi ar ei chyfer yn golygu ein bod ni sydd eisoes yn siarad Cymraeg ac yn ymwneud â'r diwylliant yn cael llawer o hwyl, ond gobeithio hefyd y bydd y cyfleoedd y byddwn ni'n eu creu'n denu ein siaradwyr newydd ni, gobeithio y bydd rhai sydd wedi cael addysg Gymraeg yn y gorffennol yn gweld cyfle i ailgydio, a gobeithio y gallwn ni ddenu rhagor o bobl o bob oed i ddysgu'r iaith.

Parhad tudalen 5 >

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
17 Chwefror 2023

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafodelai.cymru>

Argraffwyr:



EVANPRINT

www.evanprint.co.uk

CYMRAG

**Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru**

**Gwasanaeth addurno,
peintio a phapuro**

Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes**

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

**I gael pris am unrhyw
waith addurno**



**CLWB Y
DWRLYN**



**CYLCH
CADWGAN**

Vaughan Hughes,

**'Y Cyfansoddiadau -
gwobrwyo a ffraeo'**

**8yh Nos Iau, 9 Chwefror
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch**

Mynediad £3


**Manylion oddi wrth:
clwbwdwrllyn@pentyrch.cymru**

**Neuadd Dewi Sant
Caerdydd**

**Cwmni Theatr Maldwyn
yn cyflwyno
Y Mab Darogan**

Sadwrn 29 Ebrill 2023, 7:30pm

Wrth ddathlu 40 mlynedd ers
sefydlu'r Cwmni, fe gawn weld
y cynhyrchiad newydd hwn
sy'n olrhain hanes gwrthryfel
Owain Glyndwr, un o'n harwyr
mwyaf fel cenedl.




TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

Colli Beryl

Trist iawn y mis hwn yw gorfod cofnodi bod Beryl Davies wedi ein gadael a hithau'n 96 oed. Cynhaliwyd angladd Beryl yn y fynwent yn Nhonyrefail ddydd Iau, 22 Rhagfyr. Roeddwn wrth fy modd yn taro i mewn o bryd i'w gilydd i gael sgwrs gyda Beryl a hyd y diwedd roedd ei meddwl yn siar a'r hiwmor yn ddrygionus. Des i ar draws Beryl gyntaf fel plentyn yn aelod o'r Ysgol Sul yng Nghapel y Ton. Bu'n un o'r criw gweithgar a gadwodd Capel y Ton i fynd cyhyd â phosib. Roedd hi'n adnabyddus iawn yn y pentref am mai hi oedd Pennaeth Ysgol Gynradd Tref y Rhyg. Roedd wrth ei bodd yn teithio ac ymddiddorai'n fawr yn hanes Tonyrefail. Os oedd rhywun eisiau gwybod rhywbeth am hanes y Ton, doedd dim gwell ffynhonnell na Beryl. Doedd dim yn well ganddi na chlone a gwydraid bach o sieri. A hi oedd bob amser y cyntaf i dalu ei thansygrifiad i'r Tafod. Roedd yn mwynhau derbyn hanes yr ardal a'i thrigolion yn y papur bob mis a bydd Danny a finnau'n gweld eisiau galw gyda'r Tafod Elái.



Beryl Davies a Betsi Griffiths mewn cinio Gŵyl Dewi gyda Chymdeithas Gymraeg Llantrisant – dwy a roddodd oes o wasanaeth i addysg yn Nhonyrefail fel penaethiaid ysgolion cynradd.

Cydymdeimlo

A rhaid cydymdeimlo â theulu arall sy'n derbyn y Tafod, sef John a Karen Clements a'r bechgyn. Collodd John ei dad, Ralph, ychydig cyn y Nadolig. Rydym yn meddwl amdanoch chi ac yn estyn pob cymdymdeimlad.

Cymrodorion Caerdydd

3 Chwefror **John Ceiriog Hughes, Mosty Thomas a fi - Canrif o ddarlledu o Gymru.** Arwel Ellis Owen

7 Ebrill **Cennin a Chig Oen? Golwg ar fwyd Cymru - Carwyn Graves**

I ymuno, neu am ddolen i gyfarfod unigol (£3) cysyllter â Gwynn Matthews, m.g.derwendeg@gmail.com (029 20891802)

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Siop y Pentre

Ychydig wythnosau cyn y Nadolig fe agorodd siop y pentref ar ôl bod ynghau am bythefnos ar gyfer gweddnewidiad. Cafwyd bore o ddathlu a'r perchnogion wedi darparu diodydd cynnes, brechdanau a chacennau ar ein cyfer. Mae'r pentrefwyr yn hael eu canmoliaeth o'r ddarpariaeth bresennol ac yn gobeithio y bydd hyn yn annog mwy o bobl i siopa'n lleol. Diddorol nodi bod y swyddfa bost sy'n rhan o'r siop nawr yn agored chwe diwrnod yr wythnos a hynny o ben bore tan i'r siop gau gyda'r hwyr.



Wrth i un siop gael adfywiad fe gaeodd Cwtch a dymunwn yn dda i Carolina wrth iddi symud i fyw i Sbaen a dechrau ar gyfnod newydd yn ei hanes. Fe fydd llawer o ddarllenwyr y Tafod sydd wedi elwa ar ei harbenigedd yn gweld eisiau ei sesiynau tylino.

Rhaglenni Teledu

Cyn y Nadolig ymunodd grŵp o "selebs" â Catrin Heledd ar gyfer y rhaglen Am Dro! a cherdded o Bentyrch i ben y Garth i fwynhau'r golygfeydd gwych a'r te picnic "posh" cyn cerdded nôl lawr i Waelod y Garth. Llwyddwyd i gyfrannu swm sylweddol at ddwy elusen, Ysbyty Felindre a bad achub Porthdinllaen, yn sgil eu hymdrechion a'r straffaglu i gyrraedd copa'r Garth. Sgwn i a gaiff Eleri fenthyg y cap clwb Golff Nefyn a enillodd Catrin?



Donna Edwards, Ifan Pritchard a Dewi Pws gyda Catrin ar y Garth.



Mae Gwenan Rosser sy'n drefnydd proffesiynol ac yn ferch i Eira a Gwilym Williams yn brysur ar y rhaglen Ffasiwn Drefn yn helpu pobl i sortio'u hystafelloedd gwely a chypyrddau dillad a chynnig cynghorion gwerthfawr ar sut i waredu "stwf". Lle i bopeth a phopeth yn ei le yw'r nod.

Llongyarchiadau

Llongyarchiadau gwresog i Lisa Mair Williams wedi ei phenodiad fel Pennaeth Ysgol Rhydywaun. Dymunwn yn dda iddi hi yn y swydd.

Clwb y Dwrllyn

Y Cyn-Archesgob Barry Morgan gafodd ei holi'n ddeheuig gan Huw Llywelyn Davies yng nghyfarfod mis Rhagfyr Clwb y Dwrllyn. A'r ddau yn dod o'r un ardal ac yn chwarae golff gyda'i gilydd roedd yn anochel y byddai yna ffraethineb a thynnu coes yn yr holi a'r ateb. Cafwyd hanes ei fagwraeth yng Ngwauncaegurwen lle mynychai'r capel oherwydd pellter yr eglwys o'i gartre cyn iddo symud at yr Eglwys yn ystod cyfnod coleg. Cawsom gip ar ei yrfa yn yr Eglwys o Fangor, Criccieth, a Wrecsam i Gaerdydd pan gafodd ei benodi yn Archesgob. Wedi ymddeol bu'n gaplan ar longau Saga lle'r oedd ei waith bugeiliol o gymorth i deithwyr oedd angen clust i wrando.



Cenfigenai Huw pan sylweddolodd taw un o "perks" bod yn Archesgob oedd cael aelodaeth rhad ac am ddim i nifer o glybiau golff. Eto cafwyd y dwys gyda'r digri wrth sôn am golli ei wraig, Hilary, a hynny wedi ei gwaith manwl wrth gynllunio eu cartre newydd ar gyfer ymddeol.

Gyda dewis Dr Morgan o gerddoriaeth - Mary Hopkin, Judas Macabeus a Carlo - cyfoethogwyd yr atgofion gan ychwanegu at fwynhad noson ddifyr iawn.



Canu Plygain

Wedi bwlch o ddwy flynedd edrychai pawb ymlaen yn eiddgar at gynnal gwasanaeth Plygain unwaith eto yn Eglwys San Catwg, Pentyrch. Arweiniodd Rhodri Gwynn Jones y gwasanaeth yn gelfydd yn ôl ei arfer gan egluro'r traddodiad a dyfynnu o gerdd hyfryd Rhys Dafis i anifeiliaid y Nadolig. Cafwyd gwledd o gyfraniadau safonol gan unigolion a phartion a llwyddwyd i greu naws arbennig iawn gan leisau hudolus y cantorion cyn i'r gynulleidfa gloi'r gwasanaeth drwy gyd ganu Carol y Swper.



Diolch i Margaret Roberts am gydlynw ac i bawb a gymerodd rhan. Codwyd £357 ar gyfer elusennau'r Eglwys eleni sef Sight Life a Banc Bwyd Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.



Ymlaen wedyn i ddilyn y Fari Lwyd i'r Kings. Roedd y lle dan ei sang wrth i'r Fari ymbil am fynediad cyn i'r drws agor iddi. Doedd fawr o le i'r Fari (Colin) neidio o gwmpas ond cafodd y Fari a Hen Fenyw Fach Cydweli (Nia) groeso mawr gan y plant chwilfrydig. Roedd yn noson gofiadwy a diolch i bawb a fu wrthi'n ddyfal yn trefnu.



EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad i Martin a Liz West a'r teulu ar golli mam Martin. Bu farw Mrs Valerie West o Godre'r Graig ddechrau mis Rhagfyr. Cynhaliwyd yr angladd ddiwrnod cyn y Nadolig yn Nhreforys.

Cartref yn cael ei ddfrodi

Cafodd Ioan a Steffan Emanuel, Tŷ Gwyn, eu dewis i gynrychioli eu hysgol yn Nhwrnament Rygbi Ysgolion y Byd yng Ngwlad Tai ym mis Rhagfyr. Dyma gyfle gwych i Rob a Bethan, eu rhieni i gael mynd am wyliau bach i'w cefnogi cyn y Nadolig. Perfformiodd yr ysgol yn dda a phawb mewn hwyliau llawen yn cyrraedd nól adre i Efail Isaf. Ond am sioc, pan agorwyd drws y cartref, roedd rhaeadrau o ddŵr yn llifo lawr o'r atig a'r tŷ a'r celfi wedi ei difetha a'u difrodi'n llwyr. Yn ffodus cafodd y teulu gartref dros dro ym Mharc Nant Celyn tra bydd eu cartref yn cael ei adfer - gwaith sy'n debygol o bara am flwyddyn.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad i Cedwyn Aled, Heol y Ffynnon, ar golli ei dad, Kedwin Brian Jones yn 87 oed, ar ddiwedd mis Rhagfyr. Roedd Kedwin, Brian i'w ffrindie, yn enedigol o Groesyceilog, Caerfyrddin, a wnaeth hala rhan fwya' o'i fywyd yn sir Benfro. Wedd e'n brifathro ysgol gynradd Llwynihirion, ger Brynberian, ac yna ysgol gynradd Casblaidd. Wedd e hefyd yn aelod o ddau gôr parti poblogaidd yn sir Benfro sef Cantorion Ingli a Bois Y Wlad. Yn aelod ffyddlon o Blaid Cymru ers y 50au, pryd bu'n ymgyrchu dros Jennie Eirian Davies i ennill sedd Shir Gaerfyrddin. Hefyd ar ddechre'r 80au aeth i'r llys am beidio talu'r drwydded teledu fel rhan o'r ymgyrch i gal sianel teledu Gymraeg.

Cyngerdd Nadolig

Roedd yn braf cael croesawu Côr Godre'r Garth a Chôr y Cwm yn ôl i gynnal eu cyngerdd Nadolig ar ôl saib o ddwy flynedd oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Cafwyd cyngerdd o safon a'r ddau gôr ar eu gorau yn canu amrywiaeth o ganeuon a charolau'r Nadolig. Cyflwynwyd elw'r noson tuag at Tenovus, elusen sydd yn agos at galonnau'r cantorion.

Priodas

Deuddydd cyn y Nadolig bu dau gyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Garth Olwg briodi yn Y Tabernacl. Ar ddiwrnod o law trwm priodwyd Kate Walters, merch Janet a Wade Walters, Cilfynydd a Daniel Rees, mab Ioan ac Elizabeth Rees, Pentre'r Eglwys. Mynnodd y pâr dynnu tad-cu Daniel, Y Parchedig Eirian Rees i'w priodi. Roedd saith o forynion gan Kate a Mathew Rees, brawd Daniel oedd y gwas



priodas.

Cynhaliwyd y wledd briodas yn Neuadd Llechwen. Mae Kate yn Gyfrifydd yn gweithio i Jeffs a Rowe ym Mhontypridd ac mae Daniel yn Beiriannydd Trydanol yn gweithio i Hornbil.

Croeso i'r Pentref

Croeso i rieni Caroline Rees, Y Doctor Colin a Ruth Sowter, sydd wedi symud i fyw i Benywaun yn ystod mis Ionawr.

Brysia Wella

Dymunwn wellhad buan i Carey Williams, Penywaun sy'n treulio cyfnod yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Brysia wella!

Y TABERNACL Oedfa'r Nadolig

Roedd yn braf cael croesawu plant yr Ysgol Sul ac aelodau'r Twmiaid, y Bach a'r Mawr, yn ôl i gyflwyno'r Oedfa Nadolig, fore Sul, Rhagfyr 18fed. Cawsom Oedfa hyfryd ac roedd yn bleser pur i weld cymaint o blant a phobl ifanc a rhieni ifanc yn llenwi seddau'r Tabernacl. Mae'n rhaid diolch i athrawon yr Ysgol Sul ac arweinydd y Twmiaid am eu holl waith paratoi ac i'r rhieni am eu cefnogaeth barod. Mae'n siŵr i'r plant fwynhau'r parti a oedd yn dilyn yr Oedfa ac ymweliad Siôn Corn, wrth gwrs.

Gwynnos y Nadolig

Ar ôl seibiant o ddwy flynedd roedd yn braf cael ail-gydio a mwynhau Gwasanaeth Gwynnos y Nadolig. Y tro yma penderfynwyd cynnal y Gwasanaeth am hanner awr wedi pump y prynhawn yn lle un ar ddeg o'r gloch yr hwyr yn ôl yr arfer. Fe ddenwyd mwy o blant ac ieuencid i'r

Gwasanaeth a chafwyd noson hwylus o ddarllenadau a charolau hyfryd gan unigolion a grwpiau canu. Arweiniwyd y Gwasanaeth yn fedrus gan Lyn West ac Eluned Davies Scott. Ar ddiwedd yr Oedfa aeth pawb i'r Ganolfan i fwynhau paned a mins pei.

Merched y Tabernacl

Treuliodd aelodau Merched y Tabernacl brynhawn emosiynol yng Nghartref Gofal Heol Don yn yr Eglwys Newydd. Bu'r merched, ynghyd â rhai o aelodau Côr yr Einion yn cyflwyno amrywiaeth o garolau a chaneuon Nadoligaidd i breswylwyr y cartref gyda Siân Elin yn cyfeilio. Coron yr ymweliad oedd gweld Shelagh Griffiths sydd bellach yn un o'r preswylwyr yn morio canu o res ffyrnt y gynulleidfa cyn cael ei gwahodd i ymuno â'r parti i gyd-ganu. Prynhawn emosiynol a chofiadwy iawn i ni'r merched. Cynhelir Cinio Blyneddol Merched y Tabernacl ddydd Gwener, 27 Ionawr am 12.30 yn y Caesar's Arms, Creigiau, lle cawn ni wledd o fwyta a sgwsio hyfryd yng nghwmni'n gilydd.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad fel eglwys gyda Margaret Calvert, Tonysguboriau a gollodd ei chwaer ddechrau Rhagfyr.

Cadeirydd Newydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Dewiswyd Iwan Rowlands i olynu Edwyn Evans yn Gadeirydd Cyfarwyddwyr Y Tabernacl. Llongyfarchiadau gwresog iti Iwan a phob dymuniad da yn ystod dy dymor wrth y llyw.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i un o'n haelodau, Helen Prosser, ar gael ei dewis yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol, Rhondda Cynon Taf 2024. Dewis ysbyrdoledig os bu un erioed. Magwyd Helen yn yr ardal ac mae wedi llafurio'n egniol i hyrwyddo'r Gymraeg yn arbennig ymhlith y dysgwyr. Estynnwn ei dymuniadau gorau iddi yn y swydd a phob llwyddiant i'r Eisteddfod.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Chwefror.

Chwefror 5ed Myfyrdod o dan ofal Eurgain Haf
Chwefror 12fed Y Parchedig Aled Edwards
Chwefror 19eg I'w drefnu
Chwefror 26ain Y Parchedig Robin Samuel.



CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Gwellhad llwyr a buan . . .

. . . Trish Thomas! Cofion atat a'n dymuniadau gorau! Deall bod Trish 'di cael clun newydd ddechrau'r flwyddyn ac yn gwella'n dda! Byddi di'n bionic eto mewn dim ac yn hen ddal i fyny hefo'r wyrion a'r wyresau! Dal ati i wella!

Mudo - ond nid ymhell!

Pob hapusrwydd Margaret yn dy gartref newydd ym Mharc Castell y Mynach! Ddechrau Ionawr symudodd Margaret Knight o'i chartref ym Mharc y Bryn i fyngalo hyfryd ym Mharc Castell y Mynach! Pob dymuniad da wrth i ti ymgartrefu yn dy gartref newydd.

Cyfarchion pen-blwydd . . .

. . . i Ros Evans! Dathlodd Ros b/ blwydd arbennig yn ddiweddar ac i goffau'r garreg filltir cyhoeddodd gofnod o'i bywyd rhwng dau glawr sy'n cynnwys hanesion teuluol arbennig fydd yn drysor i'w hwyrion. Sori Ros - gwn y caf stŵr!

. . . i Enid Davies! Fydd hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau mis Chwefror! Na! Nefar! Mae Enid newydd ddychwelyd o Vietnam a gwlad Thai! Am ffordd i ddathlu! Edrych mlân at yr hanes!

Traws Gwlad Rhyngwladol, Dilyn, Tachwedd 2022

Longyfarchiadau i Mike Davies o Creigiau ar ei ddewis i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Traws Gwlad y Meistri Rhyngwladol ym Mharc Santry, Dilyn ym mis Tachwedd. Roedd yr amodau'n ddelfrydol ar gyfer rhedeg traws gwlad ar gwr cyflym ym Mharc Santry ond ni allai tîm gwan o Gymru gystadlu yn erbyn gwrthwynebiad cryf o'r Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon a Lloegr gyda'r Alban yn cipio'r teitl yn y categori G70+.

Oddi wrth
Mike Davies



LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y Mis: Sian Llewelyn Jones

Merched y Wawr, Cangen Tonysguboriau

Diolch i Glenys Griffiths, un o'r aelodau, am baratoi rhaglen i arwain y gangen at y Nadolig yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr. Cafwyd darlenniadau a chyfle i ganu sawl carol gyda Glenys yn cyfeilio ar y piano.

Ni wnaeth yr eira fore Mercher y 18fed o Ionawr rwystro'r aelodau rhag dathlu'r Hen Galan ym mwyty Fullbrooks, Pontyclun. Braf oedd cael cyfle i gefnogi busnes lleol a chael clonc dros ginio blasus oedd yn plesio pawb. Ym mis Chwefror bydd Alun Caffrey gyda nhw yn Cafe 50 yn cyflwyno hanes y diwydiant glo yn yr ardal. Ymunwch â nhw ar Chwefror y 15fed am 4.30.



Caffi Newydd yn Llantrisant

Mae cyfle i gael paned mewn caffi newydd yn Neuadd y Guild, Llantrisant o'r 27ain o Ionawr. Bydd y caffi ar agor o ddydd Iau i ddydd Sadwrn o 10 - 4 o'r gloch. Byddant yn gweini amrywiaeth o fyrbrydau a chacennau wedi'u paratoi gan fecws lleol. Mae'n bosibl archebu te prynhawn yno hefyd.

Ar Fawrth y 3ydd bydd Côr Merched Llantrisant yn cynnal cyngerdd Gŵyl Dewi yn y neuadd am 7.30 yr hwyr. Tocynnau £8



Swyddogion Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf (Parhad o dudalen 1)

Yn Rali'r Cyfrifiad yng Nghaerfyrddin ar ddydd Sadwrn, 14 Ionawr, fe ddywedodd Dafydd Iwan: "Dim ond iaith sy gyda gwên ar ei hwyneb sy'n mynd i fyw". Dewch i ni baratoi ar gyfer ein Steddfod ni gyda gwên.

Ond beth sy'n digwydd? Wel, y peth cyntaf rydyn ni am ei wneud yw lansio'r Eisteddfod gyda digwyddiad, a fydd yn cynnwys elfen o gyfarfod cyhoeddus. Bydd hwn yn gyfle i bobl ddweud sut maen nhw am helpu'r Eisteddfod. Mae yna le i bawb a bydd pwyllgorau'n cael eu ffurfio yn dilyn y digwyddiad. Wedyn, rhaid i ni greu rhestr destunau. Y garreg filltir nesaf fydd cyhoeddi 500 Diwrnod i Fynd ar 23 Mawrth gyda chyfres o ddigwyddiadau, gan gynnwys Sadwrn Siarad i siaradwyr newydd y Gymraeg ddod i wybod mwy am yr Eisteddfod ar 25 Mawrth yng Nghanolfan Gartholwg. A bydd Gŵyl y Cyhoeddi ar 24 Mehefin.

Ble bydd maes yr Eisteddfod ei hun yw'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn i fi amlaf. Mae hynny eto i'w benderfynu ond dyw hynny ddim yn golygu na all y gwaith ddechrau o ddifri.

Mae nifer o bobl a sefydliadau wedi cysylltu eisoes yn mynegi eu diddordeb i helpu a noddi gwobrau. Os ydych chi eisiau cysylltu, fy nghyfeiriad ebost yw prosserh@btinternet.com.

Mae deunaw mis prysur ond cyffrous o'n blaenau ni – gwela i chi yn fuan.

Cyrraedd Carreg Filltir arall

Ar ddiwedd mis Ionawr daeth neges ar Facebook gan Wayne Griffiths i ddweud fod Cronfa Er Cof am Rhian Griffiths wedi cyrraedd y swm anhygoel o £800,000. Heblaw am weithgareddau a digwyddiadau a drefnir gan gefnogwyr mae bron i 200 o ganolfannau trwy Dde Cymru, o Went i Aberhonddu a Sir Benfro, lle gall cwsmeriaid gyfrannu a chael bathodyn Glas y Gors yr elusen. Mae Wayne yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a roddir iddynt; y nod nawr yw cyrraedd £1m erbyn i ganolfan newydd Felindre fod yn barod yn 2025.



O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Cleif Harpwood, cyn brif leisydd Edward H Dafis, ar ôl cyhoeddi ei hunangofiant, *Breuddwyd Roc a Rôl?*

Beth yw eich gwaith?

Rwy wedi ymddeol erbyn hyn ac yn ymchwilio i hanes a llen 'y mro enedigol. Erbyn hyn, rwy'n cynnal ambell i ddosbarth hanes lleol ar ran Academi Hywel Teifi, yn aelod o bwyllgor Clwb y Blue Scar ym Mhont-rhyd-y-fen ac yn cynnal nosweithie cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yno. Hefyd rwy'n perfformio'n achlysurol gyda'r cerddor Geraint Cynan, yn adrodd 'yn hanes trwy gyfrwng 'y nghaneuon. Rwy'n dal i gyfansoddi ac yn mwynhau sgrifennu.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud? Beth oedd yn apelio fwy?

Fues i'n athro ysgol uwchradd, yn bennaeth theatr, yn dafarnwr, yn olygydd ac awdur sgriptie teledu cyn cynhyrchu a chyfarwyddo rhaglenni i nifer o ddarlledwyr am 35 o flynyddoedd. Fues i hefyd yn ganwr gydag Ac Eraill, Edward H Dafis, Injaroc a H a'r band. Ro'n i'n mwynhau'r canu a'r perfformio, cyffro cyfarwyddo rhaglenni teledu byw. Rwy'n teimlo'n freintiedig 'mod i wedi ca'l cymment o brofiade gwahanol.

O ble rydych chi'n dod? Pa mor bwysig oedd eich magwraeth?

Rwy'n hanu o Ddyffryn Afan, y cwm uwchben tref hynafol Aberafan (Port Talbot heddi), ardal Afan Walia, tiriogeth Arglwyddi Afan yn y Canol Oesoedd. Ro'dd pentrefi'r cwm yn Gymraeg eu hiaith yn ystod 'y mhientyndod ac ro'dd modd byw bywyd trwy gyfrwng yr iaith. Ro'dd 'yn addysg gynnar yn Ysgol Gymraeg Pont-rhyd-y-fen ac fe fues i'n byw yng nghymuned Cwmafan, Felindre ac ardal Sandfields pan o'n i'n blentyn ac yn llanc. Profes i fywyd yn y ddou ddiwylliant, Cymreictod y cwm, a chymdeithas ddi-Gymraeg y dre, a'r ddou'n ddylanwade mawr.

Ble rydych chi'n byw nawr?

Wedi cyfnod yng Ngheredigion, Caerdydd, Pontypridd a Thalylyllyche fe ddychweles i 'mro enedigol yn 2006. Rwy'n byw ym mhentref hynafol Llan Baglan ar gyrion Port Talbot ond yn bwriadu symud i'r gorllewin unweith 'to cyn hir er mwyn bod yn agos at y mab a'i deulu.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?

Do, ro'dd yr addysg gynnar ym Mhont-rhyd-y-fen yn gyfnod hapus dros ben. Yr ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned fach leol, yn union fel ysgol wledig. Ro'dd hi'n un o ysgolion cyfrwng Cymraeg cyntaf Gorllewin Morgannwg a'r

pwyslais ar ddysgu am Gymru, ei diwylliant, a'r dreftadaeth leol.

Ro'dd cerddorieth draddodiadol yn rhan amlwg o weithgaredd y ysgol, yn enwedig cerdd dant gan fod nifer o rieni'r ysgol ac oedolion y cylch yn aelode Parti Cerdd Dant Pont-rhyd-y-fen, côr llwyddiannus iawn gafodd ei sefydlu gan brifathro'r ysgol, Alwyn Samuel. Un o 'mhrofiade cynta ar lwyfan oedd fel aelod parti cerdd dant yr ysgol fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhorthmadog ym 1964. Yn sgil y fuddugolieth fe gawson ni ganu ar record y parti mawr, a dyna o'dd fy recordiad cynta ar feiny. Pwy feddylie y bydden i ymhen wyth mlynedd yn sefyll o flaen meicroffon yn stiwdios enwog Rockfield yn recordio 'Tua'r Gorllewin' fel aelod o'r grŵp Ac Eraill. Ro'dd 'yn addysg uwchradd yn Ysgol Rhydfelen, academi arbennig, er bod y daith i'r ysgol dros awr a hanner.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwy?

Ro'dd Alwyn Samuel yn ddylanwad mawr a rhai o gerddorion amlwg y saithdege'n gyn-ddisgyblion iddo fe, tri'n aelode Edward H Dafis, Hefin Elis, John Griffiths a finne. Cerddor ac actor arall fynychodd Ysgol Pont-rhyd-y-fen yw Geraint Griffiths.

Yng Ngholeg y Drindod ro'dd Norah Isaac, Dafydd Rowlands, T James Jones a Carwyn James yn ddylanwade mawr ond dwi'n meddwl taw'r adferwr Emyr Llewelyn ddylanwadodd fwy arna i fel Cymro Cymraeg.

Beth yw'r hanes tu ôl i enw Edward H Dafis?

Ffugenw awdur colofn bop *Y Faner* yn y saithdege cynnar o'dd Edward H Dafis. Ro'dd yn feirniad di-flewyn-ardafod ac o bryd i'w gilydd yn beirniadu'n llym y grŵp roc newydd o'dd wedi dwgdyd ei enw. A ninne'n meddwl taw dial o'dd ei eirie cas, dychmygwch ein syndod ni pan ddatgelwyd taw neb llai na Hefin Elis, sylfaenydd a cherddor mwyaf amlwg y band, o'dd y colofnydd.




Pa mor agos oedd y berthynas rhwng aelodau'r grŵp?

Ro'n i'n ystyried cydaelode'n fwy na chyfeillion, Ro'n ni'n frodyr ac Edward H yn frawdolieth.

Beth oedd cyfraniad y grŵp?

Nid 'yn lle i yw gweud ond ein bwriad ni o'dd cyflwyno cerddorieth gyfoes fyrlymus yn arddull Eingl-Americanedd y cyfnod i Gymry ifanc yn eu hiaith eu hunain. Yn ogystal â hynny, rwy'n gobeithio i'n cerddorieth ni gyfrannu at y frwydr dros y Gymraeg yn y cyfnod tyngedfennol hwnnw, ac i ni ysgogi'r don nesa o gerddorion blaengar.



Pam cyhoeddi hunangofiant?

Pam lai? Efalla bod 'da fi rywbeth i' ddweud.

Sut brofiad oedd cydweithio gydag Elinor Wyn Reynolds wrth baratoi'r gyfrol? Beth oedd y broses?

Ro'dd yn broses ddiddorol dros ben. Ar y cychwyn fe wnes i recordiad o atgofion yn gronolegol ar recordydd ffôn. Y bwriad yn wreiddiol oedd bod Elinor yn creu dogfen o'r recordiad ond wedyn ro'n ni am ehangu'r hyn gafodd ei recordio. Hefyd ro'n i moyn sgrifennu'r gyfrol 'yn hunan ac Elinor o'dd yn golygu a chynghori yn lle sgrifennu ar 'yn rhan i. Ro'dd yn broses hir ond, diolch i olygydd cefnogol ac amyneddgar dros ben, fe dda'th y cyfan i fwcwl. Fe ddysges i lawer gan awdures brofiadol a ma' fy niolch yn fawr i Elinor. Rhaid gweud i ni ga'l tipyn o sbort drwy gydol yr amser.

Beth sy'n eich gwylltio?

Agwedde gwrthgymreig awdurdode lleol, yn enwedig yn y de-orllewin. Er bod gyda ni Ddeddf Iaith erbyn hyn, mae nifer o'r rhein yn dewis anwybyddu eu dyletswydd statudol. Mae hyn yn amlwg mewn dogfenne ac arwyddion cyhoeddus gwallus. Wneiff unrhywbeth y tro.

Beth sy'n eich calonogi am y Gymru gyfoes? Beth sy'n eich tristáu?

Y cynnydd sylweddol yn narparieth addysg Gymraeg, ac yn fwy diweddar, gweld newid yn agwedd y di-Gymraeg at yr iaith. Pan welwch chi faner ac arni 'Yma o hyd' yn ffenest deintydd yn Nhaibach, Port Talbot, fe ddaw'n amlwg ei bod hi'n bosib creu newid.

Yr hyn sy'n drist yw bod yr un hen bethe fuon ni'n canu amdany'n nhw ac yn protestio yn eu herbyn nhw yn y saithdege'n dal i fygwth y Gymraeg heddi. Mae caneuon Edward H mor berthnasol nawr ag oedden nhw 50 mlynedd yn ôl.

O DAN YR WYNEB (Parhad)



Chi'n sôn am y llon a'r lleddf yn y llyfr? Faint o her oedd yr iselder?

Ro'dd yn frwydr barhaus, ro'n i'n gwrthod cydnabod fod 'na broblem. Yr effeithie'n cynnwys diffyg hyder, cwestiynu 'ngwerth, meddylie du. Do'dd cwato tu ôl i gyffur neu alcohol byth yn ateb. Fe ddysges i rannu 'ngofidie a siarad am y cyflwr.

Beth yw proses sgrifennu cân? Oes modd rhoi enghraifft?

Rwy'n meddwl fod gan bawb ddawn i greu tòn. Wy ddim yn gerddor hyfforddedig. Baledwr ydw i sy'n clywed melodïau yn ei ben yn hytrach na'u clywed ar offeryn neu'n eu darllen ar bapur, ac yn cyfuno geirïe â nhw rywsut. Ma' rhai'n gweud taw'r dôn sy'n dod gynta ac eraill yn gweud geirïau. Beth yw'r ots ond ei bod hi'n gân sy'n cyffwrdd neu'n cyffroi?

Ydyn ni'n wynebu'r un problemau ag oedden ni yn y chwedegau? Beth yw'r atebion?

Fel awgrymes eisoes, o'dyn. Rwy'n dal i gredu yn yr athronieth Adferol a bod angen deddfwrieth ac adnodde ychwanegol er mwyn adfer ac amddiffyn dyfodol cadarnleo'dd y Gymraeg, ac mae hynny'n cynnwys cymuned o fewn y brifddinas sydd erbyn hyn yn gyment o 'fro' ag unrhyw gadarnle yn y gorllewin.

Beth yw eich barn am y sîn roc yng Nghymru?

Ma' hi gystal ag unrhyw sin arall yn y byd, ond mae angen iddi ga'l ei chydabod fel diwydiant a'i chefnogi.

Pwy yw eich hoff ganwr a chyfansoddwr?

Fel un o blant y chwedeg, rwy'n ystyried Bob Dylan, a Lennon a McCartney ymhlith y goreuon.

Pa gyngor fydddech chi'n rhoi i ganwr ifanc?

Ma'n bwysig credu yn eich cerddorieth a



mwynhau ei pherfformio.

Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?

Rhoi'r gore i smoco. Tra'n ffilmio mewn ysbyty oedd yn arbenigo ar glefyde'r sgyfaint a'r galon ar ddechre'r nawdege, a thystio i'r anwyldere achoswyd gan dybaco, fe benderfynes i roi'r gore i smoco 30 o sigarêts y diwrnod diolch i gyngor arbenigwr o Gymro oedd yn trin y clefion yno. Roedd cydweithiwr, y gohebydd Gwenda Richards, hefyd yn allweddol yn y broses, yn fy'n atgoffa'n feunyddiol am yr hyn weles i ar wardie'r ysbyty. Fe weithiodd. Wy ddim wedi cyffwrdd â sigarét ers hynny.

Beth oedd eich llwyddiant mwyaf? Y siom fwyaf?

Llwyddo i gael job ar y Waltzers yn ffair Miami Beach ar dra'th Aberafan. Yn golygu popeth i lanc 16 oed.

Colli swm sylweddol yn y Derby rywbyrd yn y chwedeg. Er stydio'r 'form' yn fanwl da'th y 'dead cert' yn olaf yn y ras. Y peth gwaetha o'dd gofod cyfadde i ffrindie 'mod i wedi rhoi pob ceiniog o'dd 'da fi ar gefen asyn.

Beth yw'r gwersi gafodd eu dysgu? Do's dim shwd beth â 'dead cert'.

Beth sy ar y gweill?

Rwy wrthi'n teithio sioe acwstig gyda 'nghyfaill Geraint Cynan ac yn mwynhau'r profiad yn fawr. Rwy'n dal i gyfansoddi ac yn gobeithio recordio unweth 'to rôl dathlu cyrredd oed yr addewid.

Hefyd rwy wedi penderfynu ei bod yn hen bryd symud tŷ. Rwy wedi symud dros ddwsin o weithie yn ystod 'y mywyd ac wedi byw yn y cartre presennol ers dwy flynedd ar bymtheg, y cyfnod hira erio'd.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd

Brecwast o gig moch wedi'i halltu, cocos, bara lawr, pwdin gwa'd a wye wedi'u ffrio. (Peidiwch â gweud wrth y wraig, ma'n meddwl 'mod i'n llysieuw'r).

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?

Cerdded, darllen a gwranddo ar gerddorieth o bob math.

Breuddwyd Roc a Rôl?, Hunangofiant Cleif Harpwood, Y Lolfa, £14.99

Cylch Llyfryddol Caerdydd Gwener, 17 Chwefror 2023, am 7.00pm

Yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival: Sgwrs gan Dr Simon Brooks, awdur y gyfrol *Hanes Cymry*, ar y testun 'Lleiafrifoedd mewn llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg gan leiafrifoedd'.

e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

Clwb y Bont

Mae pethau'n prysuro yng Nghlwb y Bont wedi'r ail-agor fis Tachwedd diwethaf.



Er gwaethaf y glaw trwm a pheth llifogydd yn ystod yr wythnos flaenorol, cafwyd noson hwyliog iawn yn y Clwb ar nos Sadwrn 14eg o Ionawr i ddathlu'r Hen Galan. Roedd y bariau'n orlawn a'r dyrfa'n ymuno gyda'r talentog Huw M a'i fand mewn canu cymunedol, gydag ymweliad hefyd gan y Fari Lwyd.



Mae nifer o ddigwyddiadau cyffrous i ddod yn ystod mis Chwefror. Ar nos Iau'r 2il mae'r band jazz bywiog Hot Club Galois yn perfformio ac ar nos Sadwrn 11eg bydd y band Cymraeg lleol hynod boblogaidd Chroma ar y llwyfan.

Nos Iau'r 16eg gellir edrych ymlaen at noson jazz-gwerin o'r safon uchaf pan fydd y band Cymraeg Burum yn ymweld.

Bydd y Clwb yn dathlu diwrnod hanes LGBTQ gyda gweithdy a ffair ar ddydd Sadwrn 18fed o Chwefror, a sioe Queerlesque ar nos Wener y 24ain.

Mae twrnament rygbi'r chwe gwlad yn cychwyn ym mis Chwefror a bydd pob un o gemau Cymru yn cael eu dangos yn fyw ar y sgriniau mawr yn y Clwb, gan gychwyn gydag ymweliad y Gwyddelod i Gaerdydd ar ddydd Sadwrn y 4ydd.

Mae llawer o weithgareddau cymunedol, cyfarfodydd gwleidyddol a chymdeithasol, a gigs amrywiol yn digwydd yn Clwb y Bont. Gellir gweld yr arlwy lawn, a phrynu tocynnau, drwy ymweld â'r wefan clwbbybont.cymru neu'r cyfryngau cymdeithasol @clwbbybont. Croeso cynnes i bawb.

PONTYPRIDD

Colofnydd: Menna Lewis

Dathliadau

Penblwydd hapus iawn yn 90 oed i Herbie Rees, Y Comin, gŵr Alona a thad Martyn Geraint a Phillip. Gobeithio cawsoch chi ddathliad wrth eich bodd gyda'r teulu.

Penblwydd hapus i Bethan Ford yn 40 oed ar ŵyl San Steffan. A llongyfarchiadau ar gamp a hanner o redeg bob diwrnod am ddwy flynedd! Cyfle nawr i roi'r traed lan yn llythrennol! Sgwn i beth fydd yr her nesa?

Llongyfarchiadau i Huw Blainey a Josie ar eu dyweddïad ddechrau'r flwyddyn. Newyddion hyfryd.

Croeso mawr i Vaughan Hughes sydd newydd symud i fyw i Graigwen. Bydd Twm a phawb o'r teulu wrth eu bodd eich bod drws nesa bron.

Unwaith eto, rhaid llongyfarch Janet Caffery ar ei llwyddiant gyda'r bwyd anhygoel mae hi'n ei baratoi yn y caffï yn y farchnad. Cafodd ei enwi fel un o hanner cant tai bwyta gorau Cymru. Edrychwn ymlaen at agoriad y tŷ bwyta newydd sydd ar y gweill.

Merched y Wawr

Yn anffodus, bu raid gohorio ein noson mis Ionawr gyda Beti George oherwydd sefyllfa'r clwb ar ôl y tywydd drwg. Ond y newyddion da yw y bydd hi'n dod atom eto yn y dyfodol i gynnal noson. Edrychwn mlaen at ei chwmmi.

Mis Chwefror bydd Myrna, aelod o'r gangen, yn cynnal noson yn dangos ei gwaith cwltio cain ac ym mis Mawrth, daw cyfle i fynd mas am bryd o fwyd i ddathlu gŵyl Ddewi. Manylion i ddilyn.

Y Clwb Llyfrau

Byddwn yn cwrdd nesaf ar y 15fed o Chwefror yn y llyfrgell newydd yn Llys Cadwyn am 10.30 y bore. Croeso i aelodau hen a newydd ddod i drafod.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â phawb yn yr ardal sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Yn arbennig Wil Morris Jones, a gollodd ei chwaer yng nghyfraith Cadi, a Gavin Ashcroft a gollodd ei dad ddechrau Ionawr. Cofion atoch.

Clwb y bont

Er gwaetha'r tywydd garw ac Ifan y glaw, fe lwyddodd y clwb i gynnal noson i groesawu'r Fari Lwyd a dathlu'r hen Galan. Diolch i bawb fu wrthi'n helpu i lanhau a sicrhau fod hi'n bosib

Ysgoloriaeth i Ddarpar Diwtoriaid

Annwyl olygydd

Ysgrifennaf atoch o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn y gobaith y bydd yr wybodaeth isod o ddiddordeb i'r darllenwyr.

Rydym eisiau lledaenu'r gair fod ysgoloriaeth gwerth hyd at £2,000 ar gael i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am fod yn diwtor Dysgu Cymraeg i oedolion neu athro / athrawes Cymraeg.

Mi fyddwn yn talu £500 yr wythnos i ymgeiswyr llwyddiannus, gan gynnig pythefnos yng Nghaerdydd yn dysgu mwy am faes Dysgu Cymraeg i oedolion a phythefnos mewn ysgol uwchradd yn arsylwi gwersi Cymraeg. Mi all ymgeiswyr llwyddiannus ddewis faint o wythnosau maen nhw'n dymuno eu gwneud.

Mae yna alw cynyddol am diwtoriaid ac athrawon Cymraeg ledled Cymru, ac rydym angen cyflenwad cyson o dalent newydd.

Mi all myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc wneud cais - 'dyn ni'n chwilio am bobl ifanc all ysbrydoli eraill i ddysgu a siarad Cymraeg, gyda sgiliau cadarn yn y Gymraeg eu hunain.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Ionawr, 2023 ac mae modd gwneud cais trwy wefan y Ganolfan - dysgucymraeg.cymru

Diolch ymlaen llaw a chofion gorau
Helen Prosser,
Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu y
Ganolfan.

ailagor mor glou. Diolch byth fe gyrhaeddodd Y Fari yn saff a chafwyd llond lle o dyrfa yn estyn croeso twymgalon iddi i'r clwb. Braf gweld y lle dan ei sang unwaith eto.



Capel Sardis - bydd manylion y gwasanaeth datgorffori yn cael eu rhannu yn fuan.

Dilys Davies fydd yn gyfrifol am y newyddion mis nesaf.

Merched y Wawr Cangen y Garth

Cyfarfod Rhagfyr

Wraps Twrci a Brie, Cnau Cymysg gyda Rhosmari, Datys, caws a chnau, Brownies, Rocky Road - jyst ychydig o'r danteithion bendigedig gawsom ni flasgu yn ein cyfarfod mis Rhagfyr! Blas o'r Nadolig go iawn! Diolch o galon i Marian Evans, Radur ddaeth i rannu ei ryseitiau 'Dolig gyda ni yng nghyfarfod ola'r flwyddyn. Cymaint o dips! Cymaint o syniadau hyfryd! Cymaint o fwyd! Gobeithio'n wir fod pawb wedi rhoi cynnig ar wneud un neu fwy o'r ryseitiau!



Cyfarfod Ionawr



Arwel Ellis Owen oedd ein siaradwr gwadd ddechrau'r flwyddyn - Arwel a'i focs! Am awr ddifyr! Gallem yn hawdd fod wedi gwrandao ar awr arall wrth i Arwel sôn am arwyddocad y trysorau yn y bocs! Roedd y bocs ei hun yn arbennig. Yn arbennig o hardd ac yn arbennig ei stori. 'O Valparaiso i Vladivostok' oedd teitl y sgwrs - ond yn Sierra Leone y cychwynnodd y stori! Tyllau'n y ffordd - digon i'ch llyncu chi a'ch cerbyd! A'r cefnlen gwleidyddol anhygoel. Yn rhinwedd ei swyddi, o ganlyniad i ysgoloriaethau di-ri, gwahoddiadau arobryn - mae Arwel wedi bod i bob cwr o'r byd a daeth â straeon hynod iawn i ni y p'nawn Mercher llwyd yna yn y Clwb Rygbi. Cyd-weithio hefo Jack Straw yn Chile; bugeiliaid o Fangor yn Saudi; stori Mandela a'r Jumbo Jet; taith trên naw nos Wener i Shimla - diwrnod priodi yn yr India; ei daith awyren gynta'r 'rioed - yn Rwsia - sefyll ar eu traed wna'r teithwyr! Dim ond pytiau byr o glasur o sgwrs! Dylech fod yno - roedd yn addysg, yn agoriad llygad, yn ddwys ac yn ddoniol yr un pryd. Diolch o galon Arwel am ein diddanu ar b'nawn gwlyb o Ionawr! Edrychwn ymlaen at yr ail bennod!

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant



Ymweliad â'r Bathdy

Cafodd plant Dosbarth 2 hwyl a sbri wrth ymweld â'r Bathdy Brenhinol ym mis Rhagfyr. Cawson nhw gyfle i bostio llythyr, edrych ar ddarnau arian o wledydd gwahanol ar draws y byd a gweld rhai o'r peiriannau sy'n cael eu defnyddio i wneud yr arian yn y Bathdy. Ond, wrth gwrs, rhan mwyaf cyffrous y diwrnod oedd cael cwrdd â'r dyn ei hun, Siôn Corn! Mwynheuodd y plant sgwrsio â Sion Corn a sôn am beth hoffon nhw yn anrhegion Nadolig.



Ymweliad ag Eglwys Bethel Pontyclun

Cafodd plant Blwyddyn 2 gyfle gwych i ymweld ag Eglwys Bethel, Pontyclun yn ystod wythnos olaf y tymor er mwyn dysgu am stori'r geni. Cafodd y plant hwyl wrth actio'r stori, creu cardiau Nadolig ac addurno bisgedi. Diolch o galon i Mr Adam Coleman ac aelodau'r eglwys am y croeso cynnes ac am baratoi gweithgareddau mor hyfryd i'r plant.



Cystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig

Llongyfarchiadau enfawr i Lily, Celyn a Kienan am ddod yn gyntaf, ail a thrydydd mewn cystadleuaeth i gynllunio cerdyn Nadolig ar gyfer Mick Antoniwn AS ac Alex Davies AS. Fe ddaeth y ddau ohonynt i'r ysgol i gyflwyno'r gwobrau i'r plant.



Enillydd y Fedal
Ryddiaith yn Eisteddfod
Gadeiriol Caerdydd
2023 oedd 'Coch Bach y
Bala' sef Eifion Glyn,
Pentyrch



Côr y Cwm a Chôr Godre'r Garth yn eu Cyngerdd Nadolig
yn y Tabernacl, Efail Isaf

Parti Nadolig

Dyma rai o blant ifancaf yr ysgol yn dathlu'r Nadolig mewn steil yn eu dillad parti a hetiau Nadolig!



Blwyddyn Newydd Dda

Dyma blant Dosbarth 3 yn dysgu am rai o draddodiadau'r flwyddyn newydd yng Nghymru drwy greu perllan.



Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Chwefror 2023:

5 Chwefror - Oedfa Gymun a Bedydd dan ofal Delwyn Sion

12 Chwefror – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Samuel

19 Chwefror – Oedfa yng ngofal y Cwrdd Merched

26 Chwefror – Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans

Mis Mawrth 2023:

1 Mawrth (bore Mercher) - Oedfa Gŵyl Ddewi (am 9:30 a.m.)

5 Mawrth - Gŵyl Ddewi yng ngofal yr Ysgol Sul (a Chymun.)

12 Mawrth - Sul y Cyfundeb: Oedfa a gweithgarwch yng Nghanolfan yr Urdd yn y Bae

19 Mawrth – Oedfa dan ofal Delwyn Sion

26 Mawrth - Oedfa Ardal yng ngofal aelodau Gwaelod-y-garth a Ffynnon Taf

---oooOOOooo---

Rwy'n siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r term "chwe gradd o wahaniad", os mai dyna'r cyfieithiad cywir o "*six degrees of separation*".

Dyma'r cysyniad bod pawb ohonom o fewn chwech (neu lai) cyswllt cymdeithasol i'n gilydd

Pos arall sydd gen i ar eich cyfer:-

Beth sydd yn cysylltu Bethlehem, Gwaelod-y-garth, trychineb mewn glofa yn Swydd Durham, a Geronimo?

Y lle amlwg i ddechrau ydi Bethlehem siŵr o fod!

Un o'r tasgau sydd rhaid eu cyflawni yma wedi cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul, ydi dadwneud y llwyfan, sydd yn cael ei osod yn y Set Fawr o dro i dro, a'i gludo yn ôl i'r galeri er mwyn ei gadw'n saff tan y bydd galw eto am ei wasanaeth.

Cynlluniwyd y llwyfan, rhyw 30 mlynedd yn ol bellach (siŵr o fod!), gan Peredur (Pwt) Evans, Trysorydd gofalus a chydwybodol y Capel, ac mae ôl ei lafur a'i arbenigedd wedi gweld cyflwyniadau lu ar ei fwrdd byth ers hynny.

A hyfryd iawn ar y Sul olaf ond un o'r flwyddyn ddiwethaf oedd cael croesawu Mair, Joseff a'r baban Iesu, ynghyd a'r bugeiliaid (ac ambell i ddafad) a'r doethion, Herod a'r angylion, heb anghofio gwraig y llety / perchennog y stabl, fel yn y blynyddoedd a fu, i gyflwyno stori'r Geni gyda'u hafaiath yn gymysg a'u swildod, er mawr bleser i'r gynulleidfa niferus oedd yn bresennol.

Roedd yr aur, thus a myrr, (a charthion y defaid hefyd) wedi hen ddiplannu erbyn i'r criw ddadsgriwio'r llwyfan, a mynd ati i gadw'r jig-so fesul darn yn ei loches arferol.

Er y bu rhaid symud ychydig o fanion oedd wedi cyfnewid lle yn dilyn y gwaith paentio a wnaethpwyd yn y galeri yn ystod

2021, yn eu plith nifer o ffotograffau wedi eu fframio o gyn-weinidogion (ac / neu ambell ddiagon?) a fu unwaith ar furiau'r Ffestri.

Wrth ymgymryd â'r dasg honno, fe ddaeth cefn un ffrâm yn rhydd, a disgynnodd darn o ddalen papur newydd oddi arni, darn a fu yno ers o leiaf 1909 yn ôl ei ddyddiad.

Papur bregus wedi melynau, a oedd yn diflannu'n llwch bron o'i chyffwrdd oedd y ddalen, gyda'r teitl "South Wales Daily News" ar ei dop.

Yn fy chwylfrydedd, fe benderfynais (hyd y gallwn) achub yr hyn oedd yn weddill o'r ddalen, a mynd â hi adref i gael golwg fanylach arni.

Tynnu llun ohoni fyddai gallaf, a dyna a wnaethpwyd (gweler isod), ond mwyaf byd y cyffyrddid â hi, lleiaf yn y byd ohoni a oedd yn goroesi. Megis "Llwynog" R Williams Parry, "digwyddodd, darfu, megis seren wib" - cofnodaf mai dyna oedd ei hanes hithau yn y diwedd!

Nodais mai 1909 oedd y dyddiad, yn fwy manwl, 17eg o Chwefror 1909.

Cofnod felly o ddigwyddiadau'r diwrnod cynt (Chwefror 16eg) fyddai yn y papur ar y diwrnod hwnnw, ac yn wir 'roedd yn ddiwrnod prysur yn Llundain, oherwydd dyna pryd yr agorwyd tymor seneddol newydd.



A ninnau yn dechrau cyfarwyddo â chlywed sôn am Frenin yn hytrach na Brenhines ar yr Orsedd yn Lloegr, dyna lun o'r rhwysg oedd yn bodoli pan fu Edward VII yn cyflawni'r dasg gyda'i osgordd a'i gerbyd o aur yn cael ei dynnu gan res o geffylau. Yn ôl yr arfer cyflwynodd y Brenin ei "Araith Frenhinol" ar ran Llywodraeth y dydd.

Roedd gwlad "Persia" [Iran heddiw] yn y newyddion, ac adroddiad o drafodaeth seneddol yn nodi i Mr Lynch (Nat.) annog Llywodraethau Prydain a Rwsia i bwysu ar y Shah i ail-sefydlu cyfansoddiad Persia.

Nododd AS arall, Mr Carlile (C), na welai unrhyw reswm dros gynnwys bwriad i ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru yn araith y Brenin, er yr union amser pan oedd yr Eglwys yn gwneud ei waith mor effeithiol yn y Dywysogaeth.

Mewn colofn arall roedd yna gyfrif o benderfyniad diweddar yn Llys Sirol Pontypridd yn datgan bod "Ardoll

Seneddol Ffederasiwn Glowyr De Cymru" yn anghyfreithlon, a byddai hawl felly gan "*lowyr Toriaidd*" i wrthod talu'r ardoll heb golli unrhyw fantais a ddeilliai o'r gronfa.

Rhyfedd o fyd ynte - mae'r pethau yma yn dal i swnio'n hynod o gyfoes i ni heddiw - Brenin a'i rhwysg, cwffas rhwng y Toriaid a'r Undebau Llafur, pryderon am Iran, a Phrydain a Rwsia yn datgan na fyddent yn ymyrryd mewn gwleidyddiaeth gwleidydd eraill!

A pheidiwch â chymysgu gwleidyddiaeth a chrefydd!

Roedd adroddiad am brotest gan "The Women's Freedom League", yn nodi i un o'r merched hedfan mewn Llong Awyr o Hendon, o dafarn (?) yr "Old Welsh Harp", i San Steffan.

A stori drist am drychineb mewn glofa yn Swydd Durham. A do, o edrych yn fanylach ar y stori mewn man arall, dyma gadarnhau y bu i 160 o lowyr yng Nglofa West Stanley, golli eu bywydau'r diwrnod hwnnw.

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, a thipyn yn nes atom, yn 1913, y bu trychineb Glofa Senghennydd pan gollwyd 439 o lowyr (a hynny cofier yn dilyn colli 81 mewn tri digwyddiad yn yr un pwll ym mis Mai 1901)!

A dyna'r cyswllt rhwng dau o'r tri phen wedi ei gyflawni - dod o hyd i'r darn papur yn y Capel, a'r hanes am y trychineb glofaol yn cael lle amlwg arno.

Ond beth am y trydydd yn y gadwyn?

Roedd enw Geronimo yn gyfarwydd i ni ers yn blant yn chwarae "*Cowboys ac Indians*" o gwmpas y pentref nôl ym '50au a' 60au cynnar y ganrif ddiwethaf. Yn ddi-os 'roedd y Sinema leol, Y Plaza ym Mhenygroes, a llawer o gyfrifoldeb am hynny, er nad oes cof penodol gennyf o weld y ffilm arbennig o'r enw "Geronimo" pan y'i rhyddhawyd yn 1962.

Yng ngeirfa heddiw "*Americawr Brodorol*" oedd yr Apache arbennig yma (Goyaalé – "yr un sy'n dylyfu gên" oedd ei enw gwreiddiol). Fe'i ganwyd (o fewn tiriogaeth talaith New Mexico heddiw) ar yr 16eg o Fehefin 1829, ac arweiniodd ei dylwyth mewn brwydrau yn erbyn yr US Cavalry a'r Meccsicanwyr, er diogelu eu tiriogaeth a'u bywoliaeth. Bu'n alltud am flynyddoedd lawer dan ormes yr Americanwyr, a bu'n gyff gwawd ganddynt gan ei arddangos mewn ffeiriau a digwyddiadau tebyg.

Yn 1905, bu'n rhan o ymdaith urddo Theodore Roosevelt yn Arlywydd yr Unol Daleithiau, tra'n dal yn garcharor rhyfel.

Bu farw ar 17eg o Chwefror 1909, ac fe'i claddwyd ym Mynwent Apache Beef Creek yn Fort Sill.

Ie, ar union ddyddiad y ddalen o'r South Wales Daily News a syrthiodd o gefn llun un o weinidogion Bethlehem yn y galeri wrth i ni osod y llwyfan yn ôl yn ei le wedi drama'r Nadolig 2022!

Hwyl am y tro!

Ysgol Evan James

Cwmni teledu Rondo yn ffilmio yn yr ysgol

Daeth cwmni teledu Rondo i'r ysgol i ffilmio rhaglen ar gyfer Hwb gyda disgyblion Blwyddyn 6. Mae'r rhaglen yn un hanesyddol sy'n adrodd hanes James James ac Evan James a gyfansoddodd ein hanthem genedlaethol. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld y rhaglen.

Dŵr Cymru

Cafodd Dosbarth Tom Jones a Dosbarth Elin Fflur gyfle i ddysgu am waith Dŵr Cymru mewn gweithdy arbennig. Dysgodd y plant pa mor bwysig yw arbed dŵr er mwyn byw yn fyw gwyrdd.

Sesiynau rygbi

Mae Gavin, swyddog rygbi o Goleg y Cymoedd wedi bod yn dod i gynnal sesiynau rygbi gyda Dosbarth Blodeuwedd a Dosbarth Pwyll a Rhiannon bob dydd Mawrth. Mae'r disgyblion wrth eu boddau'n dysgu sgiliau newydd.



Prysurdeb y Nadolig

Diolch i Gyngor Rhondda Cynon Taf am roi coeden Nadolig yn rhodd i'r ysgol. Roedd hi'n edrych yn hardd iawn yn neuadd yr ysgol.

Aeth Dosbarth Elin Fflur i Eglwys Temple Baptist yn y dref i gymryd rhan mewn gweithdy o'r enw Lapio'r Nadolig. Dysgodd y disgyblion am rai o draddodiadau'r Nadolig ac am stori'r Nadolig hefyd. Diolch i bawb yn yr eglwys am y croeso cynnes.

Roedd yn hyfryd cael croesawu teuluoedd ein disgyblion i neuadd yr ysgol i weld y sioeau Nadolig. Roedd y canu, yr actio a'r dawnsio'n wych ac fe fwyneuoedd pob un yn fawr iawn.

Aeth disgyblion o flwyddyn 3 i ganu yng Nghartref yr henoed, Tŷ Gwynno. Mwynheuoedd pawb yno wrando ar y caneuon o'u sioe Nadolig ac fe gafodd y plant groeso cynnes.

Yn ystod wythnos olaf y tymor, cawsom ginio Nadolig blasus a pharti gwyh. Roedd Siôn Corn yn garedig iawn a chafodd pob dosbarth anrhegion bendigedig. Diolch Siôn Corn.

Pencampwr Cymru ar y trampolîn

Llongyfarchiadau mawr i Cameron Sealey ar ei gamp arbennig. Cameron yw pencampwr Cymru ar y trampolîn. Fe fydd yn cynrychioli Cymru ym mhencampwriaethau Prydain yn y dyfodol. Ardderchog!



Casgliad i'r Banc Bwyd

Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael i'r Banc Bwyd lleol cyn y Nadolig. Aeth Senedd yr ysgol â'r holl fwyd draw i'r Banc Bwyd ac roeddent yn ddiolchgar iawn am y cyfraniadau.



Enillydd cystadleuaeth cerdyn Nadolig

Llongyfarchiadau i Romy Thomas o Ddosbarth Tom Jones am ennill cystadleuaeth Cyngor Pontypridd am ddylunio cerdyn Nadolig. Cafodd Romy nifer o wobrau am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth. Mae ei cherdyn yn wych.



Croeso i Miss Withey

Hoffem estyn croeso cynnes i Miss Withey a fydd yn dysgu yn Nosbarth Bendigedfran. Mae disgyblion y dosbarth yn edrych ymlaen at gydweithio â chi.

Gweithdai Afonydd

Diolch yn fawr i Gareth Edge o Ymddiriedolaeth Afonydd De Ddwyrain Cymru am gynnal gweithdai gwyh gyda blynyddoedd 3-5 er mwyn dysgu am yr Afon Rhondda a'r bywyd gwyllt sydd ynddi ac o'i chwmpas. Dysgodd y plant am bwysigrwydd gwarchod yr afon a'r bywyd gwyllt sydd nepell o'r ysgol ac roedd y sesiynau yn wych.

Glanllyn

Yn ystod wythnos gyntaf y tymor, aeth disgyblion Blwyddyn 6 i dreulio pedair noson yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn. Roedd yn gyfle gwyh i ddod i adnabod disgyblion eraill o ysgolion y clwstwr a gwneud ffrindiau newydd. Mwynheuoedd pawb yn fawr iawn a dysgwyd cymaint o sgiliau newydd yn ystod yr wythnos. Diolch i Mr Spanswick, Mr Rowlands a Miss Gibbon am fynd gyda'r disgyblion. Wythnos i'w chofio!



Sioe Elen Benfelen

Mwynheuoedd disgyblion o Ddosbarthiadau Sali Mali, Elin Fflur, Tom Jones a Cerys Matthews y sioe Elen Benfelen gan Gwmni Theatr y Sherman yn fawr iawn. Roedd y canu a'r dawnsio'r wych a'r neges yn un bwysig – mae pawb yn unigryw!



Ymweliad â'r Senedd

Cafodd Senedd yr ysgol groeso cynnes yn y Senedd ym Mae Caerdydd y mis hwn. Aethant ar daith o gwmpas yr adeilad cyn cwrdd â Heledd Fychan sy'n aelod o'r Senedd. Uchafbwynt y prynhawn oedd gwrando ar Mark Drakeford yn siarad.



Croeso i ddisgyblion newydd Dosbarth Jac y Jwc

Ym mis Ionawr, croesawyd disgyblion cyn-feithrin newydd i Ddosbarth Jac y Jwc bob prynhawn. Maent wedi ymgartrefu'n wych ac wrth eu boddau'n dysgu a chwarae.

Ysgol Llanhari

Llwyddiant tu allan i'r ysgol

Tra bu tîm pêl droed Cymru yn cystadlu ar lwyfan y byd yng nghystadlaeth Cwpan y Byd, rhaid llongyfarch Owain Jones o flwyddyn 11 ar ennill ei le a chael treulio wythnos yn Sbaen yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Golff Ieuencid Ewrop.



Tripiau

Dechreuodd Bl 7 & 8 ddathlu'r Nadolig ar Ragfyr 1af mewn panto yn y Bari a chael cyfle arall i forio canu 'Yma o Hyd'.

Yng nghanol bwrlwm y Nadolig, mwynheudd disgyblion yr adran gynradd dripiâu gwahanol. Aeth disgyblion dosbarth Dewi Draenog i weld Siôn Corn yng Nghaerffili. Braff oedd gweld gwên ar wyneb pob un wrth iddynt sgwrsio gyda Siôn Corn ac yna yn cael cyfle i weld yr anifeiliaid hefyd.



I Barc Treftadaeth y Rhondda aeth disgyblion dosbarthiadau Cadi Cwningen a Gwion Gwiwer. Llwyddodd y disgyblion i ddod o hyd i Siôn Corn yn cuddio yn y pwll glo, da iawn chi.

Aeth disgyblion o flwyddyn 3 i 6 gyda'i gilydd i wyllo Panto Eira Wen yn y theatr yng Nghaerdydd. Roedd hi'n arbennig fod pawb yn gallu mynd gyda'i gilydd unwaith eto i fwynhau perfformiad byw, a hwnnw'n berfformiad digri dros ben!



Sioe Nadolig Martyn Geraint

Cafwyd bore llawn cyffro a chanu yng nghwmni Martyn Geraint unwaith eto eleni a oedd yn sicr wedi gwneud i bob un deimlo'n Nadoligaidd.



Cyngherddau Nadolig

Eleni am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd croesawyd rhieni a gwarcheidwaid i'r ysgol eto i wyllo perfformiadau byw eu plant. Bu'r rhain yn amrywio o stori'r geni gyda disgyblion ieungaf yr ysgol, Panto Sinderela gan ddisgyblion o flynyddoedd 2 i 4 ac yna gwasanaeth Nadolig gan ddisgyblion hynaf yr adran gynradd. Roedd hyder y disgyblion yn arbennig a mwynhad y disgyblion o gael perfformio i gynulleidfa fyw yn amlwg i bawb. Yn ogystal â hyn, cafwyd dathliad Nadolig ysgol gyfan gan ddisgyblion hyn yr adran gynradd a disgyblion yr adran uwchradd. Roedd hyn yn amrywio o'r côr yn canu, perfformiadau gan ddisgyblion y chweched dosbarth ac eitem closio i enwi ond ychydig. Diolch i'r disgyblion am eu hymroddiad a'r staff am hyfforddi. Rydyn ni'n falch iawn o bob un.



Hwyl fawr Miss Richards

Ar ddiwedd tymor yr Hydref, ffarweliodd yr adran gynradd â Miss Richards o ddosbarth Gwion Gwiwer. Bydd Miss Richards yn dechrau ei swydd newydd yng Nghaerdydd a dymunwn y gorau iddi.



Blwyddyn 8 yn Llangrannog

Mwynheudd disgyblion Blwyddyn 8 drip preswyl i Llangrannog. Roedd llawer o chwerthin, neidio, llithro a chario. Diolch i staff cegin Llangrannog am baratoi cinio Nadolig blasus tu hwnt ac am brydau bywd a oedd at ddant pawb dros yr wythnos.



GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters

Llongyfarchiadau mawr i Aufron Roberts ein Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar dderbyn y teitl MBE am ei gwasanaethau cymunedol a pholitaidd. Bu'n Gyngorydd Bwrdeistref Sirol am 38 mlynedd, Cyngorydd Cyngor Cymunedol am 20 mlynedd ac yn aelod o gangen Gilfach Goch o'r Blaidd Lafur. Mae hi'n gweithio'n ddi-baid am wellhad i bobol y pentref ac mae ei drws ar agor bob amser i'r rhai sydd angen gwybodaeth ganddi hi.



Ysgol Llanhari (Parhad)

Siwmpwr a chinio Nadolig

Cefnogwyd elusen 'Achub y Plant' unwaith eto eleni gyda'r disgyblion yn gwisgo eu siwmpwr Nadolig wrth iddynt wledda ar y cinio Nadolig a baratowyd gan staff y gegin. Roedd pawb yn edrych yn lliwgar dros ben a diolch i bawb yn y gegin am y gwaith paratoi.



Menter Caerdydd



Darpariaeth Newydd i Oedolion a Digon o Fwrlwm i'r Plant!

Mae Chwefror yn fis prysur i Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg. Beth sydd ar y gweill yn ystod y mis bach?

Darpariaeth Newydd: Addysg Oedolion

Mae'n amser cyffrous i ni wrth fynd ati i ddatblygu darpariaeth newydd Addysg Oedolion gyda chefnogaeth Cyngor Caerdydd. Bydd hen ffefrynnau fel y Gerddorfa Ukulele, gwersi cynganeddu a Pilates yn parhau, tra bo cyrsiau newydd yn dechrau dros yr wythnosau a misoedd nesaf. Hoffech chi ddysgu sgil newydd? Cadwch olwg ar ein gwefan ar gyfer cyrsiau megis cymorth cyntaf, cyfieithu ar y pryd, codi pwysau, gwnïo a mwy yn dechrau'n fuan!

Hanes Cymru: Mudiadau Protest yn y Gymru Fodern – yn dechrau nos Lun, 6 Chwefror, 7.30 ar Zoom (£10 am 3 sesiwn - recordiadau ar gael)

Yn y cwrs diweddaraf yng nghyfres Hanes Cymru, bydd yr Athro Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth yn

gofyn pam fod pobl yn protestio mewn amgylchiadau penodol? Pwy sy'n protestio a sut? A beth yw arwyddocâd y protestiadau hyn? **Sesiwn 1:** Mudiadau Cudd, Mudiadau Agored; **Sesiwn 2:** Bandiau Jazz, Gorymdeithio a Deiseb; **Sesiwn 3:** Mudiadau'r 'Di-lais' neu Ddatblygiad Newydd wedi 1945? Ewch i'r wefan i gofrestru.

Sgwrs y Mis: Wcráin – Blwyddyn Ymlaen yng nghwmni Dr Brieg Powel, Prifysgol Caerwysg – nos Iau, 16 Chwefror, 7.30 ar Zoom.

Mewn Tiwn – cyngerdd gymunedol yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina. Bore Llun, 27 Chwefror yng nghwmni'r delynores Delyth Jenkins. Yn rhad ac am ddim.

Gweithgareddau i Blant a Theuluoedd Bydd Menter Caerdydd yn trefnu cynllun Gofal yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror a bydd sesiynau Bwrlwm yn cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Cewch hyd i'r manylion llawn ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol yn nes at yr amser. Yn ogystal, cynhelir gweithdy coginio yng nghwmni Cookstars ddydd Sadwrn, 11 Chwefror yn Neuadd Eglwys St Peters, Y Tyllgoed a gweithdy gwyddoniaeth gyda SparkLab yn y Fro ar ddydd Mawrth, 28 Chwefror (manylion i'w cadarnhau).

Cofiwch hefyd am ein gweithgareddau arferol i blant bach a theuluoedd sy'n parhau yn ystod y tymor ysgol.

Pobl Ifanc

Mae'r Cwrs Ffasiwn a'r Gweithdai Podcastio'n profi'n boblogaidd wrth i ni barhau i ymestyn ein darpariaeth i'r rhai yn eu harddegau. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ddathlu Dydd Miwsig Cymru ar 10 Chwefror!

Siaradwyr Newydd

Gwenllian fydd wrth y llyw yn ein bore coffi misol i ddysgwyr ar Zoom – bore Gwener ola'r mis am 10.30. Dewch i ymarfer siarad Cymraeg!

Gwefan: mentercaerdydd.cymru

Facebook: [@m.caerdydd](https://www.facebook.com/m.caerdydd)

Instagram: [@mentercaerdydd/](https://www.instagram.com/mentercaerdydd/)

E-bost post@mentercaerdydd.cymru

Ffôn: 029 2068 9888



Ymwelydd

Cafodd disgyblion hŷn yr adran gynradd ymweliad ddiwedd tymor gan Signor Florimonte a ddaeth i drafod dathliadau'r Nadolig yn yr Eidal. Diolch i Madame Reid am drefnu.



Ysgol Garth Olwg



Ymwelwyr o Norwy

Braf oedd croesawu Tegwen Ellis, Prif Weithredwr Yr Academi Arweinyddol ac ymwelwyr o Norwy i'r ysgol. Trafodwyd addysg 3-19 yn ogystal â Chwricwlwm i Gymru a'r cod ymarfer ADY newydd. Cyflwynodd y Prifathro roddion i'r criw ac roedd pawb yn falch iawn o dderbyn hetiau Cymru!



Taith i Lundain



Ddydd Iau'r 15fed o Ragfyr, aeth yr adrannau Hanes ac Addysg Grefyddol ar daith i Lundain. Roedd pawb yn gysglyd wrth adael yr ysgol am 5:30 yb ond roedd



cyntun ar y bws wedi helpu ac yna coffi neu siocled poeth yn y gwasanaethau. Yn gyntaf, aeth y criw Addysg Grefyddol i Deml Fwdhaidd yn Chiswick. Braint oedd cael cyfarfod y mynachod a dysgu am eu gwaith, eu traddodiadau a'u credoau. Yn ogystal â'n cyfarfod ni ac ateb ein holl gwestiynau, roeddent wedi paratoi cinio hyfryd ar ein cyfer ac roedd yn brofiad bythgofiadwy. Ar yr un pryd, aeth y criw Hanes i'r *Churchill War Rooms*. Difyr oedd gweld o ble'r oedd y Llywodraeth yn gweithredu tra bod y bomiau'n disgyn uwchben. Anodd credu'r amodau tywyll ac anghynnes. Yn dilyn hyn, daethom at ein gilydd i gael cinio yn *Covent Gardens*. Ar ôl y cinio, aethom ni i'r *Imperial War Museum*. Yno, cawsom gyfle i ddysgu mwy am yr Ail Ryfel Byd ac roedd yr arddangosfa ar yr Holocaust yn drawiadol ac roedd yn gyfle arbennig i ni gofio. I gloi'r diwrnod, aethom ni i *Winter Wonderland*. Roedd *Hyde Park* yn firi o oleuadau a chaneuon Nadolig. Cawsom fodd i fyw yn sgrechian ar y reidiau a stwffio'n wynebau gyda chremlogau melys. Cawsom ddiwrnod i'w gofio – diolch Miss. Higgins.

Taith Gemeg

Roedd y daith Gemeg i Brifysgol Abertawe yn hwyl. Roeddwn yn hoff iawn o'r gwaith ymarferol a dysgais eithaf tipyn am offer swyddogol y labordy. Roedd yn bleser i gael y cyfle i gynrychioli'r ysgol mewn pwnc rydw i'n mwynhau. Tro nesaf hoffwn ennill! Byddaf yn hoffi mwy o deithiau fel hyn gan ei bod yn hwyl ac yn addysgiadol. Gan Alice Hanks Doyle, Blwyddyn 10.



Dathlu llwyddiannau

Cafwyd cyfle hyfryd i ddosbarthu tystysgrifau a chael sgwrs a phaned gyda disgyblion y 6ed dosbarth a oedd wedi gadael yn 2019 a 2020 ac na chafodd seremoni wobrwyo oherwydd Covid-19. Braf oedd clywed eu hanes a chlywed am eu swyddi a bywyd prifysgol.

Llwyddiant Dawnsio

Llongyfarchiadau i Ddawnsyr Garth Olwg am fod yn rhan o berfformiad Dawns yn Neuadd Dewi Sant ar y 11/01/23.

Eleni am y tro cyntaf ers tair blwyddyn, cynhaliodd 45 o ddisgyblion o'r Ysgol Ganol a'r Ysgol Uchaf berfformiad arbennig o dda ar lwyfan Neuadd Dewi Sant. Roedd y disgyblion wedi ymarfer yn ddwys ac wedi dangos eu talent ar y llwyfan - da iawn chi!



Taith Llangrannog Blwyddyn 8

Roedd blwyddyn 8 yn genfigennus iawn pan aeth flwyddyn 7 ar eu taith i Llangrannog. Roeddent wedi colli allan ar daith eu hunain ar ddechrau blwyddyn 7 oherwydd COVID. Doedd Mrs. Llwyd na Miss. Jones yn meddwl bod hyn yn deg iawn felly'r unig beth amdani oedd trefnu taith yn arbennig i flwyddyn 8!

Ddydd Llun yr 16eg o Ionawr aeth dau fws llawn disgyblion, swogs ac athrawon cyffrous i wersyll yr Urdd yn Llangrannog. Ar ôl siwrne hir ar y bws, roedd llond bol o sglodion a ham wedi eu paratoi ar gyfer prynhawn o weithgareddau. Yn y nos, roedd cyfle i flino yn y gemau potes ac i ganolbwyntio yn ystod y bingo a'r cwis.

Ar ôl noson dda o gwsge, roedd mwy o weithgareddau ar y gweill megis y rhaffau isel, y cwods, gwigbertio a'r llethr sgïo!





**Menter
Iaith
Rhondda
Cynon
Taf**

Hysbyseb Swydd – Rheolwr Caffi Garth Olwg

Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf wedi ennill tendr i redeg y Caffi yng Nghanolfan Gydol Oes Garth Olwg. Mae'r Ganolfan ar safle'r Ysgol 3 – 18 oed ac yno lyfrgell gyhoeddus, gwersi a grwpiau cymunedol yn cwrdd yn wythnosol a'r theatr, felly mae'n ganolfan brysur iawn a chynulleidfia gref. Mi fyddai agor y caffi yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r Fenter, yn ganolfan gymdeithasol i bobl gael clywed a defnyddio'r Gymraeg yn y Sir.

Ysgol Garth Olwg (Parhad)

Braf oedd gweld disgyblion blwyddyn 8 yn mwynhau'r gweithgareddau'r wrth ymarfer eu Cymraeg. Yn ystod cinio ar yr ail ddydd, roedd hi'n bwrw eira – am ddigwyddiad hyfryd i gael wrth edrych allan dros y môr. Ar ôl swper ar yr ail noson cawsom daith gerdded lawr i'r traeth. Roedd yn hyfryd cael gwrandao ar sŵn y môr a hithau'n dywyll braf. Unwaith i ni gyrraedd yn ôl, cawsom fyrbryd cyn mynd i'r gwely.

Yna, roedd y diwrnod olaf – roedd yr amser wedi hedfan! Cawsom frecwast blasus cyn mynd ati i bacio a thacluso'r ystafelloedd. Roedd digon o amser am ddau weithgaredd arall cyn cael cinio hyfryd a theithio ar y bws yn ôl i'r ysgol. Roedd e wir yn daith fythgofiadwy ac mae diolch mawr yn mynd i Miss. Jones, Mrs. Llwyd a'r athrawon oedd wedi edrych ar ôl y disgyblion mor dda dros y tridiau.



Bydd y caffi yn fan cymdeithasol sy'n cynnig gwasanaeth i'r gymdeithas i ymlacio a'n bwriad yw gallu cynnig cyfleoedd i bobl wirfoddoli drwy'r Gymraeg gan gynnig profiadau byd gwaith i fyfyrwyr, i bobl di-freintiedig neu sydd ag anableddau dysgu.

Byddai'r caffi yn rhoi llwyfan i allu hyrwyddo'r Gymraeg, boed trwy ddigwyddiadau, dosbarthiadau, cynnyrch Cymreig – yn hwb Gymraeg ei iaith i bobl cael cyfle i glywed a defnyddio'r iaith.

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r sir yn 2024, mae'n siŵr bydd Canolfan Garth Olwg yn ganolog iawn i nifer o ddigwyddiadau a byddai cael caffi Cymraeg wrth galon y ganolfan yn gam cyntaf wrth feddwl am waddol i'r brifwyl.

Dyma gyfle cyffrous i unigolyn gael cyfle i rhoi stamp ei hunan ar brosiect newydd!

Am fanylion pellach cysylltwch ag osianrowlands@menteriaith.cymru nawr!

Croesawu aelod o staff newydd i'r Fenter



Mae'r Fenter wedi croesawu aelod newydd i'r tîm. Ymunodd Osian Roberts â'r tîm ar y 16eg o Ionawr. Dyma Osian yn cyflwyno ei hun:

“Helô, fy enw i yw Osian Roberts. Yn wreiddiol o Lannerchymedd, Ynys Môn, dwi nawr yn gweithio gyda Menter Iaith Rhondda Cynon Taf fel Swyddog Addysg Oedolion ac Ieuenctid. Astudiais radd mewn animeiddio ym Manceinion ac wedyn es ymlaen i astudio gradd meistr yng Nghaerdydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Dwi'n edrych ymlaen at gychwyn y Gwaith gyda'r Fenter, mae'r iaith Gymraeg yn agos iawn at fy nghalon ac yn ysbrydoli llawer iawn o fy ngwaith creadigol, felly mae'r cyfle i weithio yn y swydd hon yn gyffrous dros ben!

Nid ond un Osian sydd yn gweithio yn Menter Iaith Rhondda Cynon Taf nawr, cewch 'two for the price of one' fel mae

nhw'n dweud! Dwi wastad yn hapus i gael sgwrs am unrhyw beth (Pêl-droed mwy 'na thebygl!) felly peidiwch â bod ofn dweud helo.”

Dydd Miwsig Cymru 2023

Rydym yn gyffrous i weithio mewn partneriaeth â Beacons Cymru, Clwb y Bont a Merched yn Gwneud Miwsig fel rhan o'n dathliadau Dydd Miwsig Cymru eleni. Ar yr 11eg o Chwefror bydd gweithdai DJ am ddim gyda Molly Palmer yn cael eu cynnal yn ystod y dydd yng Nghlwb y Bont ac yna gig gyda'r band lleol CHROMA, Eädyth a Francis Rees gyda'r hwyr (Tocynnau - £5). Tocynnau ar gael nawr ar Eventbrite. Cysylltwch â gweithgareddau@menteriaith.cymru am ragor o fanylion.

Clwb Creadigol

Yn dechrau dydd Iau 26 o Ionawr, Clwb Creadigol wythnosol ar gyfer plant 5-14 oed yn yr Hen Lyfrgell Porth rhwng 16:00 ac 17:00. £2 y sesiwn. Cyfle i gymdeithasu, chwarae a chreu!

Clwb Bytis Bach

Clwb i rieni a phlant bach gymdeithasu a siarad, dysgu a defnyddio eu Cymraeg trwy chwarae, storïau, canu a gweithgareddau creadigol. Pob dydd Mawrth rhwng 10:30 a 12:00 yn yr Hen Lyfrgell Porth. £2.50 y sesiwn.

Canu yn y Caffi

Dewch i ymuno â'n grŵp canu Cymraeg yn yr Hen Lyfrgell Porth. Dewch â'ch offerynnau, lleisiau neu jyst eich clustiau! Ymlaciwch gyda choffi a dewch i ddysgu a chyd ganu caneuon Cymraeg gyda ni mewn awyrgylch cyfeillgar ac anffurfiol. Croeso i unrhyw lefel gallu ac unrhyw offeryn. Addas i ddysgwyr a siaradwyr newydd. Pob dydd Iau 1af y mis yn yr Hen Lyfrgell Porth rhwng 12:00 ac 13:00.

Dyddiad i'r Dyddiadur

Mae'r Fenter yn falch i gyhoeddi bod Parti Ponty yn dychwelyd eto yn 2023! Felly rhowch nodyn yn y dyddiadur ar gyfer y 13eg o Fai.

Os hoffech chi ragor o fanylion am ein gweithgareddau, cysylltwch â gweithgareddau@menteriaith.cymru

Neu am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!**

Gwefan: www.menteriaith.cymru

Facebook: @MenterRhCT

Twitter: @MenterIaithRhCT

Instagram: @menteriaithrhct

Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott

Peidiwch Â Diystyru'r Corbys Gostyngedig



Mae ein defnydd a chymeriant o gig yn ddadleuol ac yn anffodus mae llawer o'r wybodaeth negyddol am gig sy'n cael ei gyflwyno yn y wasg a chyfyngau eraill yn seiliedig ar ymchwil amheus*. Er bod marwolaethau wedi cynyddu ychydig yn y rhai sy'n bwyta llawer o gig coch ac yn fwy pendant mewn bwytywyr cig wedi'i brosesu mae'r mater yn fwy cymhleth a rhaid edrych ar hyn mewn perthynas â'r diet yn ei gyfarwydd. Fodd bynnag, mae achos cadarn dros ystyried maint ac ansawdd y cig rydym yn ei fwyta. Er bod pris bron pob math o gig wedi gostwng yn ddramatig ledled y byd mae ei gynhyrchiant, yn enwedig mewn unedau mecanyddol ar raddfa ddiwydiannol fawr, yn cael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd, ar iechyd a lles anifeiliaid yn ogystal â'r bygythiadau hirdymor posibl i iechyd pobl. Am y rhesymau hyn, mae gwir angen i bob un ohonom ystyried faint a pha fath o gig yr ydym yn ei fwyta a'i drin fel bwyd 'moethus', yn union fel y gwnaeth ein cyndeidiau. Dyma ble ddylem fod yn ystyried o ddifrif dewis defnyddio darparwyr protein eraill yn ein diet, yn enwedig corbys.

Yn llechu yng nghefn cwpwrdd y gegin efallai y bydd bag o bys hollt neu ffacbys ac efallai bod rhai caniau o ffa Ffrengig coch yn cael eu storio ar gyfer gwneud tsili; fodd bynnag, ni chaiff ystod ac amlbwrasedd corbys eu gwerthfawrogi na'u hecsbloetio'n gyffredinol. Wrth i ni ddod yn fwy ymwybodol o gost bwydydd a'r angen i ychwanegu mwy o amrywiaeth o fwydydd i'n diet mae'n bryd codi ein hymwybyddiaeth o fanteision iechyd a chost defnyddio mwy o gorbys. Maent yn brif fwydydd llawer o wledydd ac yn cael eu defnyddio'n ddychmygus gyda llysiau, perlysiau a sbeisys i greu bwydydd blasus a diddorol.

Hadau sych y teulu codlysiau yw corbys. Mae ganddyn nhw ffynhonnell dda o ystod o faetholion gan gynnwys protein. Nid yw'r rhan fwyaf o ffa a chorbyns yn cynnwys yr holl asidau amino hanfodol sydd eu hangen ar y corff, ond os ydych chi'n bwyta amrywiaeth o gorbys ynghyd â bwydydd



eraill sy'n

seiliedig ar blanhigion fel grawn cyflawn a chnau, fe gewch chi'r holl asidau amino sydd eu hangen amnoch chi (asidau amino yw'r moleciwlau sy'n cyfuno i ffurfio proteinau). Mae un dogn o gorbys (tair llwy fwrdd) yn darparu hyd at 9g o brotein - tua chweched o'r hyn sydd ei angen amnoch mewn diwrnod. Mae un tun o ffa Ffrengig yn cynnwys cymaint o brotein â dogn o friwrig eidion, a bron dim braster a dim halen (oni bai ei fod wedi'i ychwanegu - darllenwch y label).

Mae codlysiau hefyd yn cynnwys potasiwm, sinc, fitaminau B a gwrthocsidyddion ac maent yn uchel mewn ffibr - gall un dogn o gorbys gyfrannu tua thraean o'r ffibr sydd ei angen amnoch am y diwrnod gan helpu i leihau risg clefyd y galon, strôc, diabetes math 2 a chancr y coluddyn. Mae eu cymysgedd o brotein a ffibr hefyd yn golygu eu bod yn cael eu treulio'n araf, gan wneud i chi deimlo'n llawnach am gyfnod hirach.

Un anfantais yw bod angen mwydo corbys sych, ar wahân i ffacbys a phys hollt, cyn eu coginio er mwyn lleihau'r amser coginio a'u gwneud yn haws i'w treulio. (mae'r dŵr socian yn amsugno llawer o'r cynhwysyn sy'n cynhyrfu'r perffed). Ar ôl eu rinsio bydd yn cymryd tua 1½-2 awr i'w coginio. Mae ffa Ffrengig coch yn wenwynig os na chaiff ei ferwi'n gandryll am 20 munud yn ystod eu coginio cychwynnol. Y gyfrinach yw peidio eu coginio yn y dŵr y cawsant eu socian ynddo ond eu draenio ac yna eu rinsio'n dda cyn eu rhoi mewn dŵr ffres.

Rwy'n tueddu i ffafrio defnyddio corbys tun gan eu bod yn fwy cyfleus. Mae'n werth eu rinsio cyn eu defnyddio i gael gwared ar unrhyw halen ac ychwanegion eraill. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r hylif mewn gwygbyns tun, a elwir yn aquafaba, i dewychu bwydydd neu i greu gwadau blewog fel meringues a macarons. Rwyf hefyd yn hoffi cadw codenni o ffacbys wedi'u coginio'n barod sy'n ddefnyddiol ar gyfer byrbryd cyflym neu i ychwanegu amrywiaeth at brydau.

Mae'r awdur llyfrau coginio Diana Henry yn ffafrio pys hollt a ffacbys (lentils) am yr un rheswm - does dim angen eu mwydo na'u coginio am amser hir. Gan fod y ddau yn ddiflas mae hi'n awgrymu eu trawsnewid trwy ddefnyddio gwahanol flasau fel ychwanegu nionod wedi'u ffrio, caraway, hufen sur, paprika a phicls i bys hollt neu ddilyn rysetiau o Sgandinafia lle

maent yn cael ei gwneud yn 'dip' gyda garlleg, sudd lemwn, perlysiau a digon olew olewydd da a'i weini gyda chyw iâr neu bysgod wedi griddlo. Gellir ychwanegu sinsir ffres a garlleg i dhal sydd wedi'i ei baratoi gyda lentils. Mae rysetiau gan Jamie Oliver sy'n ychwanegu lentils i gig, sy'n lleihau neu ymestyn faint o gig a ddefnyddir wrth wneud pryd o fwyd e.e. peli cig eidion gyda harrisa a saag cyw iâr.

Os nad ydych chi'n gyfarwydd â defnyddio amrywiaeth o gorbys yn eich prydau, dechreuwch gyda rhai rysetiau syml; mae cawl yn ddelfrydol ar yr adeg hon o'r flwyddyn gydag amrywiaeth dda o rysetiau ar gael sy'n defnyddio corbys mewn ffyrdd diddorol a blasus. Dyma ddolenni gwe i rai o fy hoff rysetiau.

<https://www.bbcgoodfood.com/recipes/spiced-carrot-lentil-soup>

<https://www.bbcgoodfood.com/recipes/vegan-chilli>

<https://www.bbcgoodfood.com/recipes/sausage-roasted-veg-puy-lentil-one-pot>

<https://www.hairybikers.com/recipes/view/cod-with-chorizo-and-white-beans>

* I'r rhai ohonoch sydd â diddordeb mewn gwahanu'r mythau oddi wrth y gwir am fwydydd a diet, rwy'n argymhell eich bod yn darllen *Spoon Fed* gan yr Athro Tim Spector.



Ysgol Creigiau

Côr yr Ysgol

Ddydd Mercher, cyn y Nadolig, bu côr yr ysgol yn diddanu ein teuluoedd drwy ganu Carolau a chaneuon Nadolig yn ystod amser casglu ar ddiwedd y dydd. Heb os nac oni bai roedden nhw wedi rhoi pawb yn ysbryd yr ŵyl!



Ymweld â'r Senedd

Aeth tri disgybl o Ddosbarth 6, Elinor, Lea a Betryst, i'r Senedd ym Mae Caerdydd brynhawn dydd Iau, 9fed Rhagfyr. Fel cynrychiolwyr Dosbarth 6 ar ein Cyngor Ysgol, dewiswyd y dair i gymryd rhan mewn "Senedd" ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd Cyfrwng Cymraeg Caerdydd. Y bwriad yw annog annibyniaeth a mentergarwch y disgyblion, a rhoi ystod o gyfleoedd iddynt gydweithio gyda disgyblion o ysgolion eraill ar wahanol brosiectau. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r prosiect gyda chynrychiolwyr yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o sefydlu'r 'Senedd'. Yn ystod eu hymweliad cawsant gyflwyniad i sut mae'r Senedd yn creu deddfau a chawsant gyfle i leisio eu barn ar y Bil Plastig Untro. Mwynheudon nhw'n fawr ac maent yn edrych ymlaen at eu hymweliad nesaf.



Gweithdy 'Lapio'r Nadolig'

Bu disgyblion Dosbarth 2 a Class 2 yn ymweld â Chapel Bethel, ym Mhontyclun i gymryd rhan mewn Gweithdy 'Lapio'r Nadolig' a 'Thaith y Geni' ar dir y capel. Fe fwyneudodd y disgyblion y profiad yn fawr. Diolch i Mr Colman am ein gwahodd.



Cyngherddau Nadolig

Llongyfarchiadau i'n holl ddisgyblion ar gyngherddau Nadolig gwyh. Diolch yn fawr i'n rhieni, gwarchodwyr, neiniau a theidiau am fynychu. Byddwn yn cyfrannu £1047, sy'n ganran o'r arian a godwyd drwy werthu tocynnau'r gyngerdd, i Ganolfan Ganser Felindre. Dyma'r elusen a ddewiswyd gan y disgyblion eleni.

YMWELIAD ADAM COLMAN

Daeth Adam Colman i'r ysgol i gyflwyno gwasanaeth i ddisgyblion

yr Adran Gymraeg. Roedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 wedi mwynhau gwranddo ar ei straeon. Diolch Mr Colman.

Partïon Nadolig

Mwynheudodd pob un o'n disgyblion eu parti Nadolig. Cawsant lawer o hwyl yn dawnsio a chwarae gemau yn y neuadd. Derbyniodd pob un o'r disgyblion anrheg fach gan Siôn Corn a oedd yn hynod o brysur drwy'r wythnos!



Gêm Feddygol Newydd

Roedd hi'n hyfryd croesawu un o'n cyn-ddisgyblion i'r ysgol cyn y Nadolig i gyflwyno a chwarae gêm addysgiadol Gymraeg gyda disgyblion Dosbarth 5 a Dosbarth 6. Mae Gwen yn fyfyrwr meddygol yn ei blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Bangor. Dyfeisiwyd y gêm gan y Gymdeithas Feddygol i annog plant i ystyried gyrfa mewn Meddygaeth a chysiau meddygol eu natur yn y dyfodol. Roedd y disgyblion i gyd wedi mwynhau chwarae'r gêm yn fawr.



PERFFORMIO I'R GYMUNED LEOL

Ar yr 20fed a'r 21ain o Ragfyr perfformiodd y disgyblion ganeuon o'u sioeau Nadolig i bobl o'r gymuned leol. Ddydd Mawrth bu disgyblion yr Adran Gymraeg yn perfformio i aelodau 'Clwb y Dwrlyn' a 'Merched y Wawr' ac ar fore Mercher perfformiodd disgyblion yr Adran Saesneg i'r 'Creigiau Companions' a'r 'WI'. Roedden nhw i gyd wedi mwynhau dod mewn i'r ysgol a chael eu diddanu gan ein disgyblion talentog. Roedd yn hyfryd cael sgwrs dros baned ar ôl pob perfformiad hefyd.



DAWSIO DISGO YN NEUADD DEWI SANT

Bu'r grŵp Dawnsio Disgo'n perfformio ar lwyfan Neuadd Dewi



Ysgol Pont-Siôn-Norton

Siôn Corn

Diolch yn fawr iawn i Siôn Corn am ddod i ddweud helo wrth y disgyblion yn ystod ein partïon Nadolig ac am yr anrhegion Nadolig caredig. Diolch hefyd i ffrindiau PSN am drefnu'r partïon hwyl a'r bwyd blasus.



Y Côr

Roedd preswylwyr a gweithwyr Yr Hollies wrth eu boddau gydag ymweliad y côr cyn y gwyliau Nadolig. Fe ganodd y côr yn hyfryd gyda nifer o bobl yn ymuno mewn gydag ambell i gân!



Martyn Geraint

Cafodd y disgyblion lawer o hwyl pan ddaeth ein cyn-ddisgybl Martyn Geraint i'r ysgol i gynnal sioe Nadolig. Roedd llawn canu, chwerthin, dawnsio a'r gwn ddwr wrth gwrs!!



Y Nadolig

Eleni, bu blynyddoedd 3 i 6 yn cynnal gwasanaethau Nadolig yng Nghapel Pont-Sion-Norton ar gyfer eu rhieni, tra bo blynyddoedd 1 a 2 yn perfformio sioe 'Strictly Bethlehem' yng Nghapel Coedpenmaen a'r Meithrin a Derbyn yn perfformio eu sioe yn neuadd yr ysgol i'w rhieni. Diolch i'r disgyblion a'r athrawon am eu gwaith caled ac i'r rhieni am y gefnogaeth barhaus.



Glanllyn

Er oerfel mis Ionawr, mentrodd blwyddyn 6 i Glanllyn gyda gweddill clwstwr Ysgol Garth Olwg am 5 diwrnod oer, gwlyb, gwyntog a hwyl! Fe wnaeth pob un fwynhau y gweithgareddau amrywiol. Diolch i'r staff am edrych ar eu holau. Roedd yn brofiad byth-gofiadwy!



Ysgol Creigiau (Parhad)

Sant nos Iau, 12fed Ionawr, fel rhan o Wyl Ddawns Rubicon. Perfformiodd y grŵp yn wych ac roedd ymateb y gynulleidfa'n profi bod pawb wedi mwynhau eu perfformiad yn fawr. Diolch yn fawr i Mrs Tewkesbury, Miss Phillips a Mrs Long am eu hyfforddi a diolch i'r rhieni a'r teuluoedd am gefnogi.

ACADEMI TRAETH CYMRU

Bu disgyblion Dosbarth 1 a Class 1 yn ymweld ag 'Academi Traeth Cymru' yn Rest Bay, Porthcawl, ddydd Gwener 20fed Ionawr i gymryd rhan mewn gweithdy 'Archwilio Pyllau ar Lan y Môr'. Mwynheuodd pob un y profiad yn fawr.



Heddlu

Diolch i PC Jenkins am ddod i siarad gyda blwyddyn 1 a 2 am 'Pobl sy'n Helpu'. Fe ddysgodd pawb lawer ac roedd cael trio'r wisg yn wych!



Ysgol Tonyrefail

Hen Galan

Ar Ionawr 13^{eg} bu plant Blwyddyn 2 wrthi'n dathlu'r Hen Galan. Cafodd y Fari ei thywys o ddosbarth i ddosbarth tra roedd y plant yn cario perllannau, yn canu ac yn dymuno blwyddyn newydd dda i bawb.



Blwyddyn 2 yn dathlu'r Hen Galan

Eira

Roedd y plant wedi cyffroi wrth weld yr eira ac fe ddaeth stori Sioni Rhew yn fyw i ddisgyblion ieuenga'r ysgol. Roedd y plant hyn wedi mwynhau bod allan yn yr eira hefyd!



Gwersi Samba

Mae disgyblion Blwyddyn 3 wedi cael y cyfle i dderbyn gwersi Samba gan Wasanaeth Gerddoriaeth Rhondda Cynon Taf. Diolch i Lowri Morgan am y gwersi - roedd y plant wedi mwynhau dysgu sut i chwarae amrywiaeth o offerynnau taro a dysgu am rythmau'r samba.



Gwersi Samba

Sioeau Nadolig

Roedd yr ysgol yn lle hynod o brysur cyn diwedd y tymor - cynhaliwyd 6 perfformiad o sioeau Nadolig. Bu'r dosbarth Meithrin a Derbyn yn perfformio 'O na! Ble mae gwisg Siôn Corn?' tra 'Santa ar Streic' oedd sioe Blwyddyn 1 a 2. Cynhaliwyd y ddwy sioe yn neuadd yr ysgol. Braf oedd ail gydio yn yr arfer o berfformio Sioe Nadolig Blynnyddoedd 3 i 6 yn Eglwys Dewi Sant, Tonyrefail a'r sioe y flwyddyn hon oedd 'Y Dyn Blin'. Diolch i'r eglwys am y croeso cynnes. Diolch yn fawr hefyd i'r holl blant a'r staff am eu gwaith caled i sicrhau sioeau o safon - roedd y cynulleidfaoedd wir wedi mwynhau!



Sioe Nadolig yr Adran Iau

Siôn Corn

Er ei fod yn hynod brysur, llwyddodd Siôn Corn i gael amser i ddod i ddweud helo wrth blant yr ysgol. Buodd yn hynod garedig yn rhoi rhodd o £30 i bob dosbarth. Bydd pob dosbarth nawr yn penderfynu ar sut i wario'r arian.



Siôn Corn a plant Blwyddyn 1



Santa ar Streic sioe Nadolig Bl 1 a 2



O na! Mae gwisg Siôn Corn ar Goll



Sioe Nadolig y Dyn Blin



Sioe Nadolig Bl 1 a 2

MAE MENTER IAITH RHONDDA CYNON TAF
YN EDRYCH I GYFLOGI

RHEOLWR CAFFI

CYFLOG - £23,000 Y FLWYDDYN.

DIDDERDEB? E-BOSTIWCH POST@MENTERIAITH.CYMRU



Gweithdy DJ
Pontypridd
Clwb Y Bont
Am Ddim Free

Dydd Sadwrn
11/02/23

Sesiwn Cymraeg
11:00 - 12:00
English Session
13:00 - 14:00

WELSH LANGUAGE MUSIC DAY

DYDD MIWSIG CYMRU
10.02.23

BEACONS CYMRU

MERCHED MIWSIG

Cymru Greadigol Creative Wales

X Merched Yn Gwneud Miwsig

CHROMA

+Eädyth
+Francis Rees

annibyniaeth

DYDD MIWSIG CYMRU

BEACONS CYMRU

Cymru Greadigol Creative Wales

MERCHED MIWSIG

Pontypridd Clwb Y Bont
11/02/23

£5 ar y drws

CYNLLUN CHWARAE AGORED - HANNER TYMOR

BWRLWM

I BLANT DOSBARTH DERBYN - BLWYDDYN 6
FOR CHILDREN IN RECEPTION - YEAR 6

CAERDYDD

- Ysgol y Berllan Deg
- Ysgol Mynydd Bychan
- Ysgol Glan Morfa
- Ysgol Hamadryad
- Ysgol Coed y Gof
- Canolfan Treftadaeth Caerau

BRO MORGANNWG

- Clwb Athletau Penarth Athletics
- Ysgol Gwaun y Nant
- Ysgol Dewi Sant,
- Ysgol Sant Baruc

SESIYNAU BORE A PHRYNHAWN | MORNING AND AFTERNOON SESSIONS | 20-23.02.23

MENTERCAERDYDD.CYMRU | MENTERBROMORGANNWG.ORG



DOES DIM ANGEN COFRESTRU O FLAEN LLAW!
NO NEED TO BOOK - JUST TURN UP!

Proiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project

AM DDIM!
FREE!



Chwilio am waith gwyliau ?

Oes gen ti

Lefel 3 NVQ Gofal Plant
neu Cefnogi Dysgu CCLD neu
Gymhwyster Chwarae?

Mae Menter Caerdydd yn chwilio am
Staff Arwain Cynllun Gofal Plant

dros y gwyliau ysgol

Cyflog: £16.00 yr awr



Am fwy o fanylion ebostia :

sian@mentercaerdydd.cymru



Rhif Eusen / Charity Number: 1099606
Rhif Cwmni / Company Number: 4579565

